

Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer system ddiwygiedig o gefnogaeth ariannol i ladd-dai a sefydliadau trin helgig

Dyddiad lansio: 19 Mawrth 2026

Ymatebion erbyn: 12 Mehefin 2026

1. Diben yr ymgynghoriad

- 1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau ar gynigion ar gyfer system ddiwygiedig ar gyfer cefnogaeth ariannol i ladd-dai a sefydliadau trin helgig yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr i'w darparu, yn amodol ar gytundeb gweinidogol a chyllid canolog, drwy ostyngiadau ar daliadau i'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) am gynnal rheolaethau swyddogol (arolygiadau).
- 1.2 Mae'r ymgynghoriad yn gwahodd safbwyntiau a thystiolaeth ar y canlynol:
 - **rhesymeg yr ASB dros newid a'r diwygiadau arfaethedig** i'r system gefnogaeth i fodloni'r rhesymeg honno
 - **safbwyntiau neu awgrymiadau amgen** a allai helpu i fireinio'r cynigion cyn i Fwrdd yr ASB, ac yn y pen draw weinidogion yn y tair gwlad, wneud penderfyniadau terfynol
 - **yr effaith bosib** ar weithredwyr busnesau bwyd, defnyddwyr, a'r system fwyd ehangach a fyddai'n deillio o'r newidiadau
- 1.3 Bydd yr ymatebion yn llywio'r polisi terfynol ac yn sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r fframwaith gostyngiadau a argymhellir i Fwrdd yr ASB, ac yn y pen draw i weinidogion, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, ac yn dryloyw.
- 1.4 Mae dwy elfen benodol i drefn yr ASB o godi tâl am reolaethau cig: y taliadau ar gyfer rheolaethau swyddogol, a'r gefnogaeth ariannol a ddarperir drwy gynllun gostyngiadau. Ar hyn o bryd, nid yw'r ASB yn ymgynghori, nac yn gwahodd safbwyntiau, ar unrhyw newidiadau i'r system y tu hwnt i'r rhai a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn sy'n ymwneud yn unig â chynigion ar gyfer system ddiwygiedig o gefnogaeth ariannol drwy ostyngiadau ar y taliadau a godir am gynnal rheolaethau swyddogol.

2. Cwmpas daearyddol yr ymgynghoriad

- 2.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymestyn i gylch gwaith daearyddol yr ASB, sef **Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr**.

3. Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i'r canlynol yn bennaf:

- Gweithredwyr busnesau bwyd yn y diwydiant cig y mae eu gweithgareddau'n destun arolygiadau y codir tâl amdanynt gan yr ASB, gan gynnwys gweithredwyr lladd-dai cymeradwy, ffatrïoedd torri, sefydliadau trin helgig, yn benodol y gweithredwyr busnesau bwyd hynny sy'n cael gostyngiad ar eu taliadau.
- Cyrff masnach sy'n cynrychioli gweithredwyr busnesau bwyd o'r fath.
- Cwsmeriaid gweithredwyr busnesau bwyd o'r fath (gan gynnwys cynhyrchwyr cynradd) a'u cymdeithasau masnach, er enghraifft, Undebau Ffermwyr.
- Cyrff proffesiynol sy'n cynrychioli'r rheiny sy'n cynnal arolygiadau mewn safleoedd cig.
- Cymdeithasau a grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd neu reoli arian cyhoeddus.

4. Sut i ymateb

- 4.1 Ymatebwch gan ddefnyddio'r [ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein](#).
- 4.2 Fel arall, gallwch ymateb drwy e-bost yn: meatchargingpolicy@food.gov.uk. (Gweler Adran 13)

5. Cyflwyniad

Cefndir cyffredinol

- 5.1 Mae'r ASB yn gyfrifol am reolaethau swyddogol hylendid cig mewn lladd-dai, ffatrïoedd torri a sefydliadau trin helgig cymeradwy yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys arolygu anifeiliaid a chynhyrchion i sicrhau eu bod yn addas i'w bwyta gan bobl, a gwirio prosesau a gweithdrefnau gweithredwyr busnesau bwyd i sicrhau eu bod wedi cydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch/hylendid bwyd. Yng Nghymru a Lloegr, mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu cyflawni gan Filfeddygon Swyddogol ac Arolygwyr Hylendid Cig sydd wedi'u hawdurdodi gan yr ASB. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu cyflawni gan Filfeddygon Swyddogol ac Arolygwyr Hylendid Cig DAERA sydd wedi'u hawdurdodi gan yr ASB o dan delerau Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Ni all lladd-dai a sefydliadau trin helgig weithredu oni bai bod yr awdurdod cymwys yn bresennol i gynnal rheolaethau.

- 5.2 Mae'r ASB yn codi tâl ar weithredwyr busnesau bwyd am yr amser a dreulir gan swyddogion yn cynnal rheolaethau swyddogol yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Er bod y trefniadau codi tâl cyffredinol yr un fath ledled Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, mae'r model gweithredu yng Ngogledd Iwerddon yn wahanol. Mae rhagor o fanylion am y [trefniadau codi tâl cyffredinol](#) ar gael ar ein gwefan.
- 5.3 Yn yr ymgynghoriad hwn, oni nodir yn wahanol, defnyddir y term 'lladd-dy' i gwmpasu sefydliadau a allai fod yn gymwys ar gyfer cefnogaeth, hynny yw, lladd-dai a sefydliadau trin helgig.

Dull o roi cefnogaeth ariannol

Hanes y gefnogaeth

- 5.4 Rhwng 2001 a 2009, roedd y DU yn gweithredu system codi tâl ar gyfer rheolaethau cig swyddogol a oedd yn caniatáu i weithredwyr dalu'r isaf o naill ai gyfraddau yn seiliedig ar rywogaethau (a osodwyd gan isafswm yr UE) neu daliadau amser ar gyfer staff milfeddygol a staff arolygu. Nid oedd y system hon yn cwmpasu'r holl gostau.
- 5.5 Cyflwynwyd cynllun gostyngiadau yn 2009 lle'r oedd taliadau'n cael eu codi ar sail amser a lle defnyddiwyd data trwybwn 2008/09. Yn y pen draw, barnwyd bod y cynllun hwn yn anaddas. Roedd mewn perygl o gamlunio cystadleuaeth drwy arwain at daliadau amrywiol iawn ar gyfer lladd-dai tebyg o ran maint. Roedd yn cynnig braidd dim cymhelliant i ddefnyddio adnoddau arolygu'n effeithlon, a chafodd ei feirniadu am ei ddiffyg tryloywder ac eglurder i weithredwyr busnesau bwyd.

Y cynllun gostyngiadau cyfredol (o 2016/17)

- 5.6 Cynlluniwyd y cynllun gostyngiadau presennol i ddisodli cynllun 2009 gyda system 'decach' ar gyfer dosbarthu 'pot gostyngiadau'. Roedd maint y pot yn seiliedig ar gadw'r gefnogaeth gyffredinol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, nid ar gyfrifiad newydd o angen absoliwt. Cafodd y dull ei roi ar waith gan yr ASB o 2016/17 ymlaen.
- 5.7 Mae gostyngiadau'n cael eu rhoi ar daliadau ar gyfer lladd-dai cig coch, lladd-dai dofednod, cyfleusterau lladd ar ffermydd a sefydliadau trin helgig. Ni roddir gostyngiadau ar daliadau ffatrioedd torri. O 2023/24 ymlaen, ni roddir gostyngiadau ychwaith ar gyfer taliadau sy'n ymwneud â chymau gorfodi ffurfiol na thaliadau am weithgarwch sy'n gysylltiedig ag allforio. Yng Ngogledd Iwerddon, nid oes unrhyw taliadau'n cael eu codi ar weithgareddau sy'n gysylltiedig ag allforio. Mae'r cynllun wedi'i strwythuro i ddarparu cefnogaeth i bob gweithredwr ac, er bod y gefnogaeth gyfrannol fwyaf yn mynd i'r gweithredwyr lleiaf, mae gweithredwyr mwy o faint yn cael mwy o gefnogaeth o ran yr arian parod ei hun.
- 5.8 Yn swyddogaethol, rhoddir gostyngiadau yn seiliedig ar yr oriau a dreulir gan y swyddog milfeddygol a'r arolygwr hylendid cig i fodloni anghenion gweithredwyr, ac fe'u rhoddir ar sail gynyddol. Mae'r cyfanswm sydd ar gael ar gyfer gostyngiad

yn y flwyddyn ariannol honno (y “pot gostyngiadau”) yn cael ei rannu yn ôl bandiau amser milfeddygon swyddogol/arolygwyr hylendid cig, gyda gostyngiad canrannol yn cael ei neilltuo i bob awr o waith.

- 5.9 Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun gostyngiadau presennol ar gael yng [Nghanllawiau Taliadau 2026/27 ar gyfer Cymru a Lloegr](#), [Canllawiau Taliadau 2025/26 ar gyfer Gogledd Iwerddon](#) ac yn y [canllawiau technegol ar y system gostyngiadau ar daliadau cig](#) (Medi 2016).

Canllawiau ar reoli arian cyhoeddus

- 5.10 Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae Prif Weithredwr yr ASB yn atebol am stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus gan yr ASB. Amlinellir y cyfrifoldebau hyn ar dudalennau gwe'r tair gweinyddiaeth berthnasol yng [Nghymru](#), [Gogledd Iwerddon](#) a [Lloegr](#) ynghylch rheoli arian cyhoeddus.
- 5.11 Drwy roi gostyngiad ar daliadau, mae hyn yn golygu nad yw'r ASB yn adennill cost lawn ei gwasanaethau yn unol â'r canllawiau rheoli arian cyhoeddus. Mae'r canllawiau'n mynnu, fel mater o drefn, fod yn rhaid i sefydliadau yn y sector cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr adennill costau'n llawn. Fodd bynnag, mae'r canllawiau'n darparu ar gyfer disgresiwn gyda chytundeb gweinidogol. Yng Ngogledd Iwerddon, gan fod hwn yn fater trawstoriadol, mae angen cytundeb gweithredol os yw'r gweinidog yn dewis peidio â chymhwyso cost lawn y gwasanaeth.

Gwerthusiad yr ASB o'r Cynllun Gostyngiadau presennol

- 5.12 Cyn hir, yn ystod 2025/26, bydd y cynllun gostyngiadau presennol wedi bod yn gweithredu ers deng mlynedd. O ystyried hynny, dechreuodd yr ASB werthusiad o'r cynllun yn ystod hydref 2024 gan mai cyfrifoldeb y rheoleiddiwr yw adolygu'r ddarpariaeth. Nod y gwaith hwn oedd sefydlu rhesymeg glir a chyfredol ar gyfer unrhyw gefnogaeth barhaus y gellid ei chyflwyno i weinidogion ochr yn ochr â chynigion ar gyfer y dull o'i darparu.
- 5.13 Nododd asesiad cychwynnol yr ASB o'r cynllun gostyngiadau ddwy broblem fawr:
- O ran y cyllid, nid oedd unrhyw resymeg glir y gellid ei defnyddio i gefnogi achos wedi'i seilio ar dystiolaeth i weinidogion dros roi cefnogaeth barhaus i'r sector, yn unol â'r canllawiau cyfredol ar Reoli Arian Cyhoeddus. Er bod y gefnogaeth gyfrannol fwyaf ar hyn o bryd yn mynd i'r busnesau lleiaf, y busnesau mwyaf sy'n cael y rhan fwyaf o'r gyllideb gostyngiadau, ac nid oedd unrhyw gyfiawnhad clir dros y naill na'r llall. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i'r ASB archwilio'r sefyllfa hon yn fanylach wrth gynnal ei gwerthusiad.
 - Mae'r cynllun presennol yn seiliedig ar gymryd cyfanswm yr oriau a wneir gan filfeddygon swyddogol ac arolygwyr hylendid cig ac a ddefnyddir gan y diwydiant a'u dosbarthu'n fandiau oriau. Mae hyn, i bob pwrpas, yn pennu maint busnesau mewn perthynas â'i gilydd yn seiliedig ar yr oriau a ddefnyddir ganddynt. Yna, defnyddir y bandiau hyn i ddosbarthu'r pot o arian sydd ar gael. O fewn y system gymharol hon, mae proffil maint y busnes, y pot gostyngiadau

a'r proffiliau cost i gyd wedi newid yn sylweddol ers i'r cynllun gael ei lunio. Mae hyn wedi arwain at system gymhleth lle mae'n anodd i fusnesau ragweld ac i'r ASB gyfrifo lefel y gefnogaeth y gallent ei chael bob blwyddyn.

- 5.14 Mae'r ASB wedi adolygu effeithiolrwydd, tegwch a chynaliadwyedd y trefniadau presennol ar gyfer rhoi gostyngiadau, ac wedi ystyried tystiolaeth gan y diwydiant, gweithrediadau mewnol a rhanddeiliaid eraill. Mae'r ymgynghoriad hwn yn parhau â'r dull cydweithredol y mae'r ASB wedi'i fabwysiadu drwy gydol ei gwaith o werthuso a datblygu cynigion ac yn rhoi cyfle i wneud sylwadau ffurfiol ar y cynigion.
- 5.15 Gellir cael hyd i wybodaeth fanwl am y gwaith ymgysylltu a wnaed cyn yr ymgynghoriad hwn yn yr adran ar y broses ymgysylltu ac ymgynghori isod. Mae'r ASB hefyd wedi cynnal dadansoddiad economaidd rhagarweiniol, a bydd yn cynhyrchu asesiad effaith llawn, wedi'i lywio gan ymchwil annibynnol a gynhaliwyd gan gontractwyr allanol (gweler yr adran ar '[Effaith](#)' isod) ac ymatebion i'r ymgynghoriad hwn cyn unrhyw benderfyniadau gweinidogol.

6. Y prif gynigion

- 6.1 Mae'r cynigion a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn ar gyfer system ddiwygiedig o gefnogaeth ariannol i ladd-dai a sefydliadau trin helgig. Cynigir darparu'r gefnogaeth hon trwy ostyngiadau ar daliadau'r ASB ("y system ddiwygiedig") sy'n bodloni'r rhesymeg a nodwyd yn dilyn ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid a chytundeb gan Fwrdd yr ASB. Byddai hyn (a) yn dod â'r system bresennol o gefnogaeth gyffredinol i ben lle mae gweithredwyr yn cael rhywfaint o ostyngiad ni waeth beth fo'u maint, er bod y gefnogaeth honno wedi'i thargedu'n benodol at fusnesau llai, a (b) yn diweddu'r dull o bennu gostyngiadau yn seiliedig ar fandiau cymharol o oriau i ddull sy'n seiliedig ar drwybwn hanesyddol. Byddai'r dull newydd hwn yn cynnwys y nodweddion allweddol canlynol:

- **cymhwysedd ar gyfer cefnogaeth** – bydd hyn yn cael ei bennu'n flynyddol yn seiliedig ar drwybwn hanesyddol
- **lefel y gefnogaeth** – ar gyfer gweithredwyr cymwys, bydd hyn yn cael ei bennu'n flynyddol yn seiliedig ar y trwybwn fel gostyngiad canrannol unigol i'w gymhwyso at bob tâl cymwys mewn blwyddyn ariannol
- **disgresiwn o dan amgylchiadau eithriadol** – bydd gan yr ASB ddisgresiwn i fynd i'r afael ag unrhyw amgylchiadau eithriadol ar gais / gyda chytundeb gweinidogion, yn unol â'r canllawiau rheoli arian cyhoeddus

- 6.2 Mae manylion llawn, gan gynnwys y dewisiadau posib ar gyfer elfennau penodol o'r system ddiwygiedig arfaethedig, i'w gweld yn Adran 8 ('Cynigion Manwl') isod.

Y rhesymeg dros roi cefnogaeth

- 6.3 Mae'r cynigion wedi'u hategu gan nifer o ragdybiaethau sydd wedi'u datblygu a'u profi trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid hyd yn hyn a thystiolaeth o Alwad am Dystiolaeth (gweler paragraff 7.1). Cadarnhaodd y gwaith hwn y ddamcaniaeth

bod yr ystod bresennol o fusnesau lladd-dai yn cefnogi amrywiaeth mewn ffermio a dewis i ddefnyddwyr. Mae'r rhain yn fuddion cyhoeddus dymunol ac felly mae hyn yn rhywbeth y dylid ei gynnal a/neu ei dyfu. Ffuriodd hyn sail yr argymhellion cychwynnol a chytunwyd arno gan Fwrdd yr ASB.

- 6.4 Mae gwahanol raddfeydd o ladd-dai yn gwasanaethu gwahanol gwsmeriaid ar hyd a lled y gadwyn gyflenwi, gydag ymraniad cymharol wahanol yn y farchnad yng Nghymru a Lloegr (mae Gogledd Iwerddon yn wahanol fel y trafodir ym mharagraffau 6.16 i 6.22 isod). Er y bydd eithriadau bob amser, canfuwyd bod y canlynol yn gyffredinol wir: mae lladd-dai llai yn cefnogi ffermydd llai a chwsmeriaid manwerthu llai; mae'r lladd-dai mwyaf yn gwasanaethu ffermydd mwy a/neu ganolfannau casglu a chwsmeriaid manwerthu a masnachol mwy.
- 6.5 O ganlyniad i hyn, mae dau ffactor sy'n cyfuno i roi pwysau ar fusnesau lladd-dai llai:
- Mae busnesau llai yn ei chael hi'n anodd ysgwyddo costau cynyddol; y lladd-dai llai a'r busnesau llai maent yn eu gwasanaethu
 - Mae'r ffordd rydym yn cynnal rheolaethau rheoleiddiol yn fwyaf effeithlon i'r busnesau mwyaf, felly mae lladd-dai bach yn wynebu baich rheoleiddiol anghymesur (gweler '[Cydraddoli beichiau rheoleiddiol](#)' isod).
- 6.6 Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn golygu, pe baem yn cael gwared ar y gefnogaeth bresennol i ladd-dai llai, y gallai'r cynnydd sylweddol mewn costau y byddent yn eu profi niweidio eu hyfywedd a hyfywedd y busnesau y maent yn eu gwasanaethu, naill ai trwy gau neu'r angen i drosglwyddo costau anghynaliadwy i fusnesau bach eraill. Byddai hyn, yn ei dro, yn niweidio'r nod ehangach o gadw amrywiaeth a dewis. Mae cynnal cefnogaeth sy'n cydraddoli'r beichiau rheoleiddiol ar gyfer busnesau llai yn mynd i'r afael â'r risg hon ac mae'r angen am hyn wedi bod yn thema gyson yn ein gwaith ymgysylltu.
- 6.7 I'r gwrthwyneb, ni nodwyd unrhyw dystiolaeth hyd yma fod angen parhau i gefnogi lladd-dai mwy er mwyn cynnal amrywiaeth gan eu bod yn llawer mwy abl i ysgwyddo costau neu eu trosglwyddo, ac mae ein darpariaeth reoleiddio fwyaf effeithlon ar y graddfeydd mwyaf fel y trafodir isod yn yr adran 'Cydraddoli beichiau rheoleiddiol'.

Cydraddoli beichiau rheoleiddiol

- 6.8 Mae yna ystod eang o ffactorau sy'n effeithio ar fodel busnes ac effeithlonrwydd gweithredol lladd-dy penodol. Nid lle'r ASB fel rheoleiddiwr yw ceisio cydraddoli'r rhain ar draws pob busnes. Fodd bynnag, dylem anelu at osgoi cyflwyno unrhyw fanteision neu anfanteision anfwriadol *ychwanegol* yn y farchnad o ganlyniad i ddull yr ASB o gynnal rheolaethau a chodi tâl amdanynt.
- 6.9 Yn ôl eu natur, mae ein rheolaethau fwyaf effeithlon yn y lladd-dai mwyaf lle mae angen sawl swyddog amser llawn a lle mae'r trwybwn yn uchel. Pan fo'r trwybwn yn isel iawn mewn lladd-dai bach, mae peth o'r effeithlonrwydd yn cael ei golli oherwydd na ellir addasu rhai tasgau yn yr un ffordd ag eraill. Y ffordd symlaf o

ddangos effaith hyn yw trwy gyfrifo'r gost reoleiddio gyfartalog fesul anifail a brosesir – cyfanswm y tâl blynyddol ar gyfer busnes wedi'i rannu â chyfanswm y trwybwn.

- 6.10 Drwy edrych ar y cyfrifiad hwn ar draws pob busnes, mae tuedd glir i'w gweld, sef bod y busnesau lleiaf, ar gyfartaledd, yn wynebu cost reoleiddio fwy fesul anifail na lladd-dai mawr sy'n prosesu'r un rhywogaeth. Mae cydraddoli'r baich hwn drwy roi gostyngiad yn osgoi cyflwyno manteision neu anfanteision anfwriadol yn y farchnad oherwydd dull yr ASB o gynnal rheolaethau.
- 6.11 Mae yna lawer o ffactorau eraill sy'n achosi amrywiad yn y gost rhwng lladd-dai. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'u modelau busnes ac felly dim ond yn seiliedig ar gyfartaleddau eang y gallwn gydraddoli beichiau. Gall busnesau unigol brofi gwahaniaethau sylweddol o hyd.
- 6.12 Os ydym yn cydraddoli baich, mae'n anochel y bydd angen meincnod y gellir cymharu ac addasu popeth yn ei erbyn. Mae ein rheolaethau yn fwyaf effeithlon ar gyfer y lladd-dai mwyaf, felly mae hwn yn feincnod priodol. Mae'r system ostyngiadau bresennol a'r system ddiwygiedig arfaethedig ill dwy yn cydraddoli beichiau i ryw raddau ac mae'r ddwy yn mynnu rhyw fath o gymhorthdal i wneud hyn. Y gwahaniaeth yw bod y lladd-dai mwyaf – y meincnod – yn y system bresennol hefyd yn cael cefnogaeth, gan arwain at system o gymhorthdal cyffredinol sy'n mynd y tu hwnt i gydraddoli.
- 6.13 Meincnod amgen i osgoi'r angen am unrhyw gymhorthdal fyddai rhyw fath o ddull "cost gyfartalog ar gyfer lladd-dy cyfartalog". Fodd bynnag, byddai dull o'r fath, wrth gydraddoli beichiau rheoleiddiol, yn creu croes-gymhorthdal, gyda'r lladd-dai mwyaf yn talu mwy fesul anifail nag y byddai angen iddynt fel arall er mwyn i'r lleiaf dalu llai. Mae hyn yn annymunol ac felly nid yw wedi'i ystyried fel opsiwn.
- 6.14 Er mwyn sicrhau bod beichiau'n cael eu cydraddoli, osgoi creu manteision neu anfanteision anfwriadol ac osgoi croes-gymorthdaliadau, ni ddylai lladd-dai a gefnogir fod, ar gyfartaledd, â chost gymorthdaledig is fesul anifail na'r gost gyfartalog gyfatebol mewn lladd-dai mawr digymhorthdal.
- 6.15 Mewn trafodaethau â'r Bwrdd a rhanddeiliaid, nodwyd bod cydraddoli beichiau rheoleiddiol yn swyddogaeth bwysig ar gyfer unrhyw fecanwaith cefnogaeth. Mae ein tystiolaeth hyd yma yn awgrymu bod lladd-dai llai yn dibynnu ar y gostyngiad i gydraddoli'r beichiau hyn, a hynny er mwyn bod yn gynaliadwy a chyflawni'r canlyniadau cadarnhaol a nodwyd, fel y nodir ym mharagraff 6.3. Felly, mae hyn yn nodwedd allweddol o'r cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn ac yn rheswm pam y dylid darparu cefnogaeth ar gyfer canlyniadau ehangach drwy gymhorthdal yn hytrach na mecanweithiau eraill.

Gogledd Iwerddon: Trosolwg

- 6.16 Fel y dangosir gan dystiolaeth a gasglwyd drwy waith ymgysylltu'r ASB â rhanddeiliaid hyd yma ac a nodwyd gan Fwrdd yr ASB, mae gwahaniaethau yn strwythurau'r diwydiant lladd-dai a'r diwydiant ffermio yng Ngogledd Iwerddon lle, yn wahanol i Gymru a Lloegr, mae lladd-dai mawr, yn enwedig yn y sector cig coch, yn darparu gwasanaethau i lawer o gynhyrchwyr bach. Mae hyn yn cynnwys

gwasanaethau a fyddai fel arfer yn cael eu darparu gan ladd-dai llai yng Nghymru a Lloegr.

- 6.17 Mae rhanddeiliaid yng Ngogledd Iwerddon wedi dweud bod y strwythur hwn yn creu heriau ychwanegol i effeithlonrwydd lladd-dai a allai effeithio ar feichiau rheoleiddiol. Mae'r ffaith y gellir symud anifeiliaid dros y ffin i Weriniaeth Iwerddon i'w lladd yn peri cymhlethdod ychwanegol. Mae taliadau am reolaethau swyddogol yng Ngweriniaeth Iwerddon yn sylweddol is na'r rheiny yng Ngogledd Iwerddon, gan arwain at bwysau cystadleuol ar broseswyr cig yng Ngogledd Iwerddon.
- 6.18 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yma, tybir y byddai sector cig eidion/oen/porc Gogledd Iwerddon yn trosglwyddo unrhyw gostau ychwanegol na allent eu hysgwyddo eu hunain i gynhyrchwyr trwy brisiau is wrth giât y fferm. I'r gwrthwyneb, tybir y byddai'r sector dofednod yn ysgwyddo neu'n trosglwyddo cynnydd mewn costau i lawr y gadwyn gyflenwi i fanwerthwyr. Er bod y patrymau hyn yn debygol o gael eu hadlewyrchu yng Nghymru a Lloegr ar gyfer lladd-dai o raddfa debyg, gall y canlyniadau yng Ngogledd Iwerddon fod yn wahanol oherwydd y strwythurau gwahanol yn y farchnad a amlinellwyd uchod.
- 6.19 Mae hyn yn creu her wrth geisio bodloni rhesymeg Bwrdd yr ASB dros y gefnogaeth a nodir ym mharagraff 6.3–6.7 gan y gallai rhai o'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r model arfaethedig fod yn wahanol. Yn benodol, y gallu i ladd-dai mawr ysgwyddo a/neu drosglwyddo costau, effeithiau gwneud hynny ar ffermwyr, a'r meincnod priodol ar gyfer cydraddoli beichiau rheoleiddiol.
- 6.20 Gallai fod yn fuddiol defnyddio'r un model cefnogaeth cyffredinol yng Ngogledd Iwerddon ag yng Nghymru a Lloegr ond gan gydnabod y gwahaniaethau, fel sy'n wir gyda'r cynllun gostyngiadau presennol. O dan y dull presennol, mae hyn yn golygu gwahanol ganrannau band a gwahanol uchafsymiau ar gyfer gostyngiadau yng Ngogledd Iwerddon. Nid oes gan y model arfaethedig fandiau y gellir eu trin yn y ffordd hon mwyach. Fodd bynnag, pe bai sylfaen dystiolaeth ddigonol yn cael ei sefydlu, gallai gweinidogion a gynghorir gan yr ASB ofyn i'r ASB arfer disgresiwn i ddarparu cefnogaeth i'r lladd-dai mwy hynny yng Ngogledd Iwerddon. Pe bai dystiolaeth yn cefnogi defnyddio disgresiwn, gallai hyn helpu i osgoi unrhyw effeithiau negyddol ar ffermwyr llai sy'n dibynnu ar eu gwasanaethau oherwydd y strwythurau amaethyddol gwahanol.
- 6.21 I lywio ein hargymhellion i weinidogion, rydym yn ceisio rhagor o dystiolaeth ar y gwahaniaethau yn y gadwyn bwyd-amaeth yng Ngogledd Iwerddon o'u cymharu â Chymru a Lloegr, yr effeithiau posib y mae'r rhain yn eu cael ar weithrediadau lladd-dai ac o ganlyniad effaith bosib unrhyw newidiadau yn y gostyngiad ar y system ehangach.
- 6.22 Trafodir sut y gellid arfer disgresiwn pe bai gweinidogion yn penderfynu ei fod yn angenrheidiol ac i ba sectorau y dylai fod yn berthnasol ym mharagraffau 8.39 ac 8.40 isod.

Cwestiynau Ymgynghori – Y gwahaniaethau rhwng y sectorau lladd-dai a ffermio yng Ngogledd Iwerddon

Mae'r cwestiynau hyn yn ceisio tystiolaeth ynghylch yr achos dros ddull gwahanol yng Ngogledd Iwerddon, fel y trafodir ym mharagraffau 6.16 – 6.22.

Ym mha ffyrdd, os o gwbl, y mae strwythur cadwyn cyflenwi bwyd-amaeth Gogledd Iwerddon yn cyflwyno heriau ychwanegol na all y lladd-dai mawr eu lliniaru?

Beth yw'r effeithiau posib ar y gadwyn cyflenwi bwyd-amaeth yng Ngogledd Iwerddon, os o gwbl, o gael gwared ar yr holl gefnogaeth ariannol (hynny yw, y gostyngiad ar godi tâl am reolaethau swyddogol ar gig i ladd-dai mawr yng Ngogledd Iwerddon)? Rhowch dystiolaeth i gefnogi'ch safbwyntiau.

A yw'r rhagdybiaethau ar gyfer y sectorau cig coch a dofednod yng Ngogledd Iwerddon, a nodir ym mharagraff 6.18, yn gywir neu'n anghywir?

Pa dystiolaeth allwch chi ei rhoi i gefnogi'ch barn?

7. Datblygu opsiynau

Y broses ymgysylltu ac ymgynghori

- 7.1 Yn hydref 2024, dechreuodd yr ASB ei gwerthusiad o'r cynllun gyda [Galwad am Dystiolaeth ar effaith gostyngiadau ar daliadau](#) a sut maent yn darparu manteision i fusnesau a defnyddwyr. Thema a gododd droeon yn yr ymatebion a ddaeth i law, yn bennaf gan y diwydiant cig a'i gyrff cynrychioliadol, oedd bod gweithrediadau llai yn dibynnu'n fawr ar y gostyngiad er mwyn parhau'n hyfyw. Tynnodd yr ymatebion sylw hefyd at y rhan bwysig y gall lladd-dai bach ei chwarae mewn cymunedau ac economïau lleol a'r manteision posib i les anifeiliaid, gydag anifeiliaid yn teithio pellteroedd byrrach i'w lladd.
- 7.2 Ystyriodd Bwrdd yr ASB [bapur](#) a oedd yn rhoi cyd-destun i'r gwerthusiad ac yn manylu ar y canfyddiadau cychwynnol o'r Alwad am Dystiolaeth yn ei gyfarfod cyhoeddus ar 11 Rhagfyr 2024. Dywedodd y Bwrdd wrth swyddogion yr ASB am gynnal gwaith ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid i geisio safbwyntiau ar bwrpas ac amcan y gostyngiad, ei effaith ar y diwydiant cig yn ogystal â safbwyntiau ar y defnydd o arian trethdalwyr. Mae [cofnodion a fideo](#) o'r cyfarfod ar gael ar ein gwefan.
- 7.3 Cafodd gwaith pellach yr ASB ei lywio gan dair sesiwn wyneb yn wyneb gyda rhanddeiliaid y diwydiant yn Belfast, Caerdydd a Llundain ym mis Chwefror/Mawrth 2025. Rhoddwyd gwybod am y sesiynau i dros 250 o sefydliadau a oedd yn cael y gostyngiad ac fe'u hanogwyd i ymgysylltu ymlaen llaw, gyda sefydliadau cynrychioliadol yn bresennol neu'n cael eu gwahodd i gysylltu â'r ASB yn uniongyrchol gyda'u safbwyntiau. Ar 2 Mehefin 2025, cynhaliodd yr ASB sesiwn ar-lein i rhanddeiliaid i adlewyrchu'r hyn a glywodd yn

ystod y sesiynau wyneb yn wyneb, rhoi cyfle i wneud sylwadau pellach a rhannu'r camau nesaf â rhanddeiliaid.

7.4 Adolygodd Bwrdd yr ASB gynnydd y gwerthusiad yn ei gyfarfod cyhoeddus ar 18 Mehefin 2025, wedi'i lywio gan bapur a baratowyd yn sgil y gwaith ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid a'r dadansoddiad economaidd. Cyhoeddwyd [crynodeb ffurfiol o ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth](#) ochr yn ochr â'r [papur](#). Yn y cyfarfod, cytunodd y Bwrdd fod sail resymegol dros gefnogaeth yn y dyfodol o amgylch darparu 'nwyddau a buddion cyhoeddus' ar ffurf cynnal neu gynyddu amrywiaeth mewn ffermio a dewis i ddefnyddwyr, a dywedodd wrth swyddogion yr ASB am ddatblygu cynigion yn unol â'r rhain. Wrth wneud hynny, dyma'r Bwrdd yn:

- cydnabod bod busnesau llai yn wynebu baich rheoleiddiol cyfrannol mwy; pwysigrwydd y gostyngiad i'w hyfywedd; a phwysigrwydd parhau i gynnig cefnogaeth i ladd-dai bach a rhai canolig eu maint er budd defnyddwyr, busnesau, yr economi wledig ehangach a chefnogi amrywiaeth yn y cyflenwad bwyd
- cytuno nad oedd unrhyw ddadleuon na thystiolaeth berswadiol yn dod i'r amlwg er mwyn cymell yr ASB i ddarparu cefnogaeth i ladd-dai mawr, gan nodi'r gwahaniaethau yn strwythur systemau'r diwydiant a'r sector amaethyddol yng Ngogledd Iwerddon
- trafod yr angen i ddarparu ar gyfer twf drwy osgoi unrhyw doriadau sydyn yn y gefnogaeth ac yn trafod sut y gellid targedu cefnogaeth i gydabod ffactorau eraill fel cydymffurfiaeth â safonau a lles anifeiliaid
- cydnabod pwysigrwydd system gefnogaeth yn y dyfodol sy'n symlach ac yn weithredol o fewn y paramedrau deddfwriaethol presennol

Mae [cofnodion a fideo](#) o'r cyfarfod ar gael ar ein gwefan.

7.5 Datblygwyd cynigion ar gyfer system gefnogaeth ddiwygiedig, wedi'u llywio gan rownd bellach o ymgysylltu wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid yng Nghaerdydd, Belfast a Llundain ym mis Medi/Hydref 2025 a dadansoddiad economaidd pellach, gyda busnesau unigol yn cael gwybod sut i gymryd rhan fel o'r blaen. Ar 5 Tachwedd 2025, cynhaliodd yr ASB sesiwn ar-lein i rhanddeiliaid i adlewyrchu'r hyn a glywodd yn ystod y sesiynau wyneb yn wyneb, rhoi cyfle i wneud sylwadau pellach a rhoi gwybod am y camau nesaf.

7.6 Yn ei gyfarfod cyhoeddus ar 10 Rhagfyr 2025, ystyriodd Bwrdd yr ASB [bapur](#) yn nodi cynigion ar gyfer system gefnogaeth ddiwygiedig. Rhoddodd gyfarwyddyd ar yr opsiynau posib o fewn y system arfaethedig a chytunodd y dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y cynigion a nodir yn y papur. Wrth wneud hynny, dyma'r Bwrdd yn:

- nodi'r dystiolaeth o ran pwysigrwydd lladd-dai llai i rai cymunedau ac i ddewis defnyddwyr, a hynny'n seiliedig ar ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth gan grwpiau ffermio a chynaliadwyedd a thrwy waith ymgysylltu â'r diwydiant

- cytuno'r canlynol o dan y cynigion ar gyfer y system ddiwygiedig:
 - dylai'r lladd-dai lleiaf gael y gefnogaeth fwyaf posib drwy ostyngiad o 90% ar daliadau, gan nodi y byddai mwy o ladd-dai llai yn elwa o'r lefelau cefnogaeth uchaf o dan y system ddiwygiedig
 - dylai rhai lladd-dai canolig gael cefnogaeth a bennir yn ôl cyfradd ostyngol i helpu i leihau rhwystrau i dwf ac i helpu i gydraddoli beichiau rheoleiddio
 - ni ddylai'r busnesau mwyaf gael unrhyw gefnogaeth gan nad oedd y dystiolaeth a oedd ar gael yn cynnig unrhyw gyfiawnhad dros roi cefnogaeth barhaus
 - dylid archwilio elfennau ychwanegol posib i'r system ddiwygiedig (na fyddent yn rhan o'r gweithrediad cychwynnol) yn yr ymgynghoriad

Mae [cofnodion](#) a [fideo](#) o'r cyfarfod ar gael ar ein gwefan.

- 7.7 Ar wahân, gwnaeth yr ASB gomisiynu Riber Consultants, rhwng Awst 2025 a Chwefror 2026, i gynnal ymchwil annibynnol, gan gasglu tystiolaeth o ladd-dai ledled Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr i lywio'r asesiad effaith.
- 7.8 Mae'r ymgynghoriad hwn yn parhau â'r dull cydweithredol y mae'r ASB wedi'i fabwysiadu i'w gwaith o werthuso'r cynllun gostyngiadau presennol a datblygu cynigion ar gyfer system gefnogaeth ddiwygiedig.
- 7.9 Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd y penderfyniadau terfynol ar unrhyw gefnogaeth yn y dyfodol ar draws cylch gwaith daearyddol yr ASB yn cael eu gwneud gan weinidogion yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, ar ôl cael cyngor gan yr ASB ac yn unol â'r canllawiau perthnasol ar reoli arian cyhoeddus.

Dewisiadau amgen

- 7.10 Ceisiodd gwerthusiad yr ASB o'r cynllun gostyngiadau presennol sefydlu rhesymeg glir a chyfredol ar gyfer unrhyw gefnogaeth barhaus i'w chyflwyno i weinidogion ochr yn ochr â chynigion ar gyfer dull o'i gyflenwi. Fel y nodir uchod, o ganlyniad i waith ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid a Bwrdd yr ASB, cynigir opsiwn arweiniol ar gyfer system ddiwygiedig.
- 7.11 Er mai dyma'r prif gynnig, mae'n bwysig nodi bod dau opsiwn arall wedi'u hystyried a'u gwrthod, sef:
- (a) cynnal a chadw cefnogaeth gyffredinol drwy'r system fandiau
 - (b) dim gostyngiad (adennill costau llawn)
- 7.12 Er mwyn bod yn gyflawn, byddwn yn nodi'n gryno y rhesymau dros wrthod yr opsiynau hyn ac rydym yn chwilio am unrhyw dystiolaeth bellach a allai herio neu gefnogi'r casgliad i wneud hynny.

7.13 Wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer unrhyw system ddiwygiedig sy'n cyd-fynd â'r rhesymeg, nododd yr ASB yr amcanion allweddol canlynol:

- sicrhau cydymffurfiaeth â'r canllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus drwy gael cytundeb gweinidogol â'r rhesymeg ar gyfer rhoi cefnogaeth
- darparu gwerth i drethdalwyr y DU
- canolbwyntio ar yr angen
- helpu i gydraddoli beichiau rheoleiddiol
- darparu system symlach sy'n rhoi mwy o sicrwydd i fusnesau
- darparu cysylltiad cadarn rhwng gostyngiadau a chostau sy'n helpu i yrru effeithlonrwydd y llywodraeth wrth gynnal rheolaethau

(a) Cynnal a chadw cefnogaeth gyffredinol drwy'r system fandiau

7.14 Ceisiwyd tystiolaeth i lywio'r gwerthusiad, a oedd yn dangos o'r cychwyn bwysigrwydd lladd-dai llai i gymunedau ac economïau lleol. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi dod i law hyd yma sy'n cefnogi parhau i roi cefnogaeth i fusnesau mawr, ond byddai unrhyw dystiolaeth o'r fath yn cael ei chroesawu mewn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

7.15 Wrth ystyried y cynllun gostyngiadau presennol, dyma oedd casgliadau'r gwerthusiad:

- ar y cyfan, mae'n cydraddoli beichiau rheoleiddiol rhwng busnesau bach a mawr
- er bod y gefnogaeth gyfrannol uchaf i fusnesau llai, mae'n dyrannu'r rhan fwyaf o'r arian sydd ar gael ar gyfer cefnogaeth i fusnesau mawr lle nad oes dystiolaeth o angen am gefnogaeth
- mae'r system yn gymhleth ac yn anodd i weithredwyr busnesau bwyd ei deall ac i'r ASB ei gweinyddu
- mae'r sail gymharol yn sensitif i newidiadau yn y farchnad a chyllideb yr ASB, ac nid yw'n rhoi sicrwydd i fusnesau
- nid yw'n darparu cysylltiad rhwng cost y gostyngiad i'r llywodraeth a'r gost i'r diwydiant, felly nid yw'n gyrru effeithlonrwydd y llywodraeth yn uniongyrchol wrth gynnal rheolaethau

7.16 Y casgliad cyffredinol oedd, er bod y cynllun presennol yn cydraddoli beichiau'n fras ac y gellid parhau i'w ddefnyddio i dargedu cefnogaeth at fusnesau llai (drwy leihau'r gefnogaeth i'r bandiau uchaf a newid yr oriau sydd wedi'u cynnwys yn y bandiau isaf sy'n weddill), ni all fodloni'r anghenion hyn yn gynaliadwy. Gan fod y pot gostyngiadau'n cael ei leihau i gyd-fynd â'r cyllidebau sydd ar gael, ni fyddai'n

bosib cynnal lefelau'r gostyngiad yn y bandiau isaf oherwydd bod y rhan fwyaf o'r cyllid yn dal i fynd i'r busnesau mwyaf. O ganlyniad, byddai'r busnesau llai yr ydym yn ceisio eu cefnogi yn dod dan anfantais bellach dros amser. Heb unrhyw resymeg dros gefnogi'r busnesau mwyaf ac o fewn pot sefydlog, mae cefnogi busnesau mwy ar draul cefnogi'r busnesau llai, gan arwain at werth gwael i'r trethdalwr.

- 7.17 Mae'r casgliadau hyn i'w gweld yn y cyfrifiadau ar gyfer y gostyngiadau ar gyfer 2026/27 lle, hyd yn oed wrth fwyhau'r gefnogaeth i fusnesau llai, bu'n rhaid lleihau nifer yr oriau ym mand un (90%) a band dau (75%) i gydraddoli'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer gostyngiadau, tra bo lladd-dai mwy yn parhau i gael cyfran sylweddol ohoni.

(b) Dim gostyngiad

- 7.18 Dyma oedd casgliadau'r gwerthusiad wrth ystyried yr opsiwn o beidio rhoi gostyngiad:

- byddai'n bodloni'r canllawiau ar reoli arian cyhoeddus, gan sicrhau bod modd adfer yr holl gostau y gallwn godi tâl amdanynt
- er y byddai llai o gost i'r trethdalwr, efallai na fyddai'n cynnig y gwerth gorau oherwydd y canlyniadau posib ac nid yw'n ysgogi effeithlonrwydd y llywodraeth wrth gynnal rheolaethau
- ni fyddai'n canolbwyntio ar angen ac o'r herwydd byddai beichiau rheoleiddiol yn cael eu cymhwyso'n anghyfartal at y lladd-dai llai
- byddai tâl uniongyrchol yn symlach i fusnesau ac yn haws i'w weinyddu

- 7.19 Roedd dadl nad cyfrifoldeb yr ASB yw hybu amrywiaeth mewn ffermio a dewis i ddefnyddwyr, a bod y cyfrifoldeb hwnnw'n syrthio ar adrannau eraill sy'n gyfrifol am bolisi amaethyddol ehangach, ac felly na ddylai'r ASB barhau i ddarparu gostyngiad. Pe bai angen cyllid i gyflawni'r canlyniadau hyn, roedd dadl y dylid ei ddarparu drwy fecanweithiau eraill. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ystyried y beichiau rheoleiddiol anwastad o ganlyniad i'r ffordd y mae'r ASB yn cynnal rheolaethau rheoleiddio. Roedd tystiolaeth o'r alwad am dystiolaeth a gwaith ymgysylltu ehangach hefyd yn glir o ran yr effaith bosib o gael gwared ar y gostyngiad a sut y byddai hyn yn effeithio ar y ffordd y caiff beichiau rheoleiddiol eu cydraddoli ar gyfer busnesau llai. Y casgliad cyffredinol felly oedd bod y canlyniadau posib a all godi yn sgil beichiau anghyfartal yn dod o fewn cylch gwaith yr ASB a bod rhesymeg, felly, dros gadw rhyw fath o gefnogaeth uniongyrchol gan yr ASB. O'r herwydd, gwrthodwyd yr opsiwn o gael gwared ar y gostyngiad yn gyfan gwbl.

- 7.20 Dim ond opsiynau i ddiwygio elfen gostyngiad y drefn codi tâl y mae'r ASB wedi'u hystyried. Nid ydym wedi ystyried opsiynau i ddiwygio elfen codi tâl y drefn gan fod y cymelliadau a'r rhesymeg dros wneud hynny'n wahanol.

Cwestiwn Ymgynghori – Opsiynau

Mae'r ASB wedi cynnal proses ymgysylltu helaeth a nodir yn yr adrannau uchod, gan gynnwys Galwad am Dystiolaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid wyneb yn wyneb ac ar-lein, ynghyd â phapurau cyhoeddedig sydd wedi llywio tair trafodaeth gan Fwrdd yr ASB mewn sesiwn agored hyd yn hyn. Drwy'r broses ymgysylltu hon, rydym wedi nodi ac ystyried nifer o opsiynau, gan dalu sylw i'r dystiolaeth a gafwyd hyd yma, ac mae ein casgliadau cyffredinol a nodir uchod wedi llunio cynigion ar gyfer ein prif opsiwn ar gyfer system ddiwygiedig.

Pa dystiolaeth ychwanegol allwch chi ei darparu i gefnogi neu herio'r casgliadau a dynnwyd gan yr ASB?

8. Y cynigion manwl

- 8.1 Mae'r adran hon yn ceisio safbwyntiau ar yr ystod o baramedrau a allai ffurfio model sy'n seiliedig ar drothwy ar gyfer pennu cymhwysedd ar gyfer gostyngiadau. Er mwyn sicrhau ein bod yn casglu'r wybodaeth fwyaf cadarn, atebwch y cwestiynau ymgynghori mewn perthynas â'r dull penodol hwn.

Model ar gyfer pennu cymhwysedd / Lefel y gefnogaeth

Trosolwg

- 8.2 Er mwyn sicrhau dull cyson, mae'r ASB yn cynnig y byddai model ar gyfer pennu cymhwysedd blynyddol, a lefel y gefnogaeth i sefydliadau cymwys, yn gymwys ar draws cylch gwaith daearyddol yr ASB sef Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Byddai'r model yn helpu i roi sicrwydd ynghylch cefnogaeth i ladd-dai llai a byddai'n cael ei gynllunio i helpu i leihau rhwystrau i'w twf.
- 8.3 Yn amodol ar gyllid canolog, byddai'r ASB, o dan bwerau deddfwriaethol presennol, yn rhoi cefnogaeth i sefydliadau trwy roi gostyngiadau iddynt ar ei thaliadau. Byddai'r sefydliadau'n cael eu hasesu'n flynyddol i bennu a ydynt yn gymwys ar gyfer cefnogaeth.
- 8.4 Byddai cyfleuster i'r ASB arfer disgresiwn i fynd i'r afael ag unrhyw amgylchiadau eithriadol ar gais / gyda chytundeb gweinidogion yng ngwledydd y tair gwlad, yn unol â'r canllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus.
- 8.5 Disgrifir y model arfaethedig a'i nodweddion o baragraff 8.7 ymlaen o'r ddogfen ymgynghori hon. Lle defnyddir y term 'model' yn y ddogfen hon, dylid cymryd ei fod yn golygu cymhwyso set o feini prawf cyson er mwyn pennu cymhwysedd sefydliad ar gyfer cefnogaeth a lefel y gefnogaeth i'w darparu i sefydliadau cymwys trwy ostyngiad ar daliadau'r ASB.

Pwerau deddfwriaethol

8.6 Fel gyda'r cynllun gostyngiadau presennol, byddai gostyngiadau i sefydliadau cymwys o dan y system ddiwygiedig yn cael eu darparu gan yr ASB gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddi o dan:

- [Erthygl 79 o Reoliad a gymathwyd 2017/625 \(Rheolaethau Swyddogol\)](#), sy'n gymwys ym Mhrydain Fawr
- [Erthygl 79 o Reoliad \(UE\) 2017/625 \(Rheolaethau Swyddogol\)](#), sy'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon
- [Paragraffau 1 a 2 o Atodlen 2 i Reoliadau Cig \(Ffioedd Rheolaethau Swyddogol\) \(Lloegr\) 2009 \(OS 2009, Rhif 1574\)](#)
- [Paragraffau 1 a 2 o Atodlen 2 i Reoliadau Cig \(Ffioedd Rheolaethau Swyddogol\) \(Cymru\) 2009 \(OS 2009, Rhif 1557 \(C. 152\)\)](#)
- [Paragraffau 1 a 2 o Atodlen 2 i Reoliadau Cig \(Ffioedd Rheolaethau Swyddogol\) \(Gogledd Iwerddon\) 2009 \(SR 2009, Rhif 247\)](#)

Dull sylfaenol

8.7 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, byddai'r ASB yn pennu cymhwysedd pob sefydliad i gael cefnogaeth yn ôl y model. Er mwyn symllrwydd, mae'r ASB yn cynnig, ar gyfer pob sefydliad cymwys, y dylid defnyddio gostyngiad canrannol sengl, a bennir yn seiliedig ar ei drwybwn hanesyddol – gweler isod.

8.8 Byddai'r gostyngiad hwn yn cael ei gymhwyso at daliadau am yr holl oriau sy'n ofynnol i gynnal rheolaethau swyddogol yr ASB y cyfeirir atynt ym mharagraff 5.1 mewn sefydliadau cymwys mewn blwyddyn ariannol. Byddai'n dal i fod yn wir na fyddai taliadau am unrhyw amser a dreulir ar weithgareddau allforio neu weithgareddau gorfodi yn destun gostyngiad, gan nodi nad yw taliadau'n cael eu cymhwyso at weithgareddau sy'n gysylltiedig ag allforio yng Ngogledd Iwerddon.

8.9 Byddai'r ASB yn pennu cymhwysedd drwy roi pob sefydliad mewn un o dri chategori yn seiliedig ar drwybwn hanesyddol (a bennir gan ddefnyddio cyfraddau trosi Unedau Da Byw (LSU) deddfwriaethol neu niferoedd anifeiliaid) fel procsi ar gyfer maint y busnes:

- **Cefnogaeth fwyaf** – ar gyfer sefydliadau â thrwybwn hanesyddol hyd at drothwy (Trothwy 1)
- **Cefnogaeth ostyngol** – ar gyfer sefydliadau â thrwybwn hanesyddol uwchlaw Trothwy 1 ac islaw trothwy uwch (Trothwy 2) gyda'r ganran gostyngiad wedi'i phennu yn ôl gostyngiad unionlin o'r adeg y daw'r gefnogaeth fwyaf i ben (Trothwy 1) hyd at yr adeg y daw cymhwysedd i ben (Trothwy 2)
- **Dim cefnogaeth awtomatig** – ar gyfer sefydliadau â thrwybwn uwchlaw Trothwy 2


Cwestiwn Ymgynghori – Dull sylfaenol

Mae'r ASB yn cynnig penderfyniad blynyddol o gymhwysedd a lefel y gefnogaeth ar gyfer pob sefydliad cymwys, yn unol â'r model a ddisgrifir ym mharagraffau 8.7 – 8.9.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno, ar gyfer pob sefydliad cymwys, y dylai'r model ddarparu penderfyniad blynyddol o ostyngiad canrannol sengl a gymhwysir at bob tâl cymwys?

Rhowch resymau dros eich atebion gan gynnwys cynigion eraill, os yw'n briodol.

Ffigur 1: Cymhwyso'r model – enghreifftiau



Disgrifiad: Ar gyfer blwyddyn ariannol benodol, byddai sefydliad â thrwybwn hanesyddol “a” yn cael y gostyngiad mwyaf (x%). Byddai sefydliad â thrwybwn hanesyddol “b” yn cael gostyngiad rhwng y gostyngiad mwyaf (x%) a 0%. Ni fyddai sefydliad â thrwybwn hanesyddol “c” yn cael unrhyw ostyngiad.

- 8.10 Ystyriodd yr ASB nifer o opsiynau y gellid eu defnyddio fel procsi ar gyfer pennu maint gweithredwr (ac felly gymhwysedd i gael cefnogaeth / lefel unrhyw gefnogaeth), gan brofi'r rhain yn ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid. Roeddent yn cynnwys: sawl diwrnod yr wythnos y mae sefydliadau'n gweithredu; sawl aelod o staff a gyflogir; a sawl awr o amser milfeddygon swyddogol/arolygwyr hylendid cig a ddefnyddir. Ymhlith yr heriau a nodwyd a oedd yn gwneud y procsis hyn yn llai dibynadwy oedd: y baich gweinyddol ychwanegol o gasglu a phrosesu gwybodaeth am niferoedd staff; y ffaith nad yw nifer y dyddiau y mae sefydliadau'n gweithredu o reidrwydd yn dangos eu maint; ac, o ran oriau milfeddygon swyddogol/arolygwyr hylendid cig a ddefnyddir, y defnydd o Gynorthwywyr Arolygu Dofednod (PIAs) ar gyfer rhai rheolaethau yn y sector dofednod nad yw eu horiau'n cael eu cofnodi ar systemau'r ASB. Ystyriwyd hefyd y defnydd o wybodaeth ariannol fel trosiant neu elw ac, er mai dyma, o bosib, y procsi mwyaf cadarn, nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd a byddai'n feichus yn weinyddol i'w chasglu a'i phrosesu. Penderfynodd yr ASB, felly, mai trwybwn fyddai'r procsi gorau ar gyfer dealltwriaeth gyffredin, symlrwydd ac effeithiolrwydd.

Cwestiwn Ymgynghori – Trwybwn hanesyddol

Mae'r ASB yn cynnig defnyddio trwybwn hanesyddol fel procsi ar gyfer maint busnes i bennu cymhwysedd sefydliadau i gael cefnogaeth a lefel y gefnogaeth ar gyfer sefydliadau cymwys, fel y disgrifir ym mharagraffau 8.7 – 8.9 ac y dangosir yn Ffigur 1.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod trwybwn hanesyddol yn sail briodol ar gyfer pennu cymhwysedd ar gyfer cefnogaeth ariannol?

Rhowch resymau dros eich atebion gan gynnwys cynigion eraill, os yw'n briodol.

Pennu trwybwn

(a) Sylfaen amser trwybwn

- 8.11 Mae'r ASB yn cynnig y dylai cymhwysedd (a lle bo'n briodol, lefel y gefnogaeth y byddai sefydliad yn ei chael) gael ei bennu yn seiliedig ar ei drwybwn hanesyddol. Mae hyn er mwyn darparu procsi ar gyfer maint y busnes. Bydd defnyddio trwybwn blyneddol yn helpu i liniaru effaith amrywiadau tymhorol er mwyn sicrhau, ar ba bynnag adeg o'r flwyddyn y cymerir data, ei fod yn darparu procsi rhesymol ar gyfer maint y busnes. Ar ben hynny, gall defnyddio cyfartaledd treigl ar draws tair blynedd helpu i liniaru unrhyw ddigwyddiadau di-gynllun neu annisgwyl sy'n arwain at amrywiadau sylweddol naill ai yn y gadwyn cyflenwi anifeiliaid neu'r gadwyn dosbarthu bwyd ar draws blyneddau. Y dull a ffefrir yw pennu trwybwn hanesyddol ar **sail dreigl o dair blynedd** i ddarparu'r manteision hyn, oherwydd byddai gwneud hynny'n helpu i leddfu effeithiau unrhyw wahaniaethau sylweddol o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag, mae trwybwn yn seiliedig ar y flwyddyn flaenorol yn unig yn ddull amgen sydd hefyd yn cael ei ystyried.

Cwestiwn Ymgynghori – Sylfaen Amser y Trwybwn

Y dull a ffefrir gan yr ASB i helpu i liniaru amrywiadau sylweddol yn y gadwyn cyflenwi anifeiliaid neu'r gadwyn cyflenwi bwyd yw pennu'r trwybwn gan ddefnyddio data hanesyddol ar sail dreigl o dair blynedd, fel yr eglurir ym mharagraff 8.11.

Pa un o'r dulliau canlynol, os unrhyw un, sy'n well gennych chi?

- **Sail dreigl o dair blynedd**
- **Sail y flwyddyn flaenorol**
- **Arall (nodwch)**

Eglurwch eich dewis a rhowch dystiolaeth i gefnogi hynny.

(b) Categoriâu trwybwn

- 8.12 O dan y system ostyngiadau bresennol, mae gwahanol fandiau'n berthnasol yn dibynnu a yw'r da byw yn gig coch/anifeiliaid hela neu'n ddofednod. Mae'r trwybwn

yn wahanol iawn wrth gymharu, er enghraifft, ladd-dy cig coch mawr lle mae'n cael ei fesur mewn miloedd o anifeiliaid â lladd-dy dofednod mawr lle mae'n cael ei fesur mewn miliynau. Fodd bynnag, mae defnyddio trwybwn fel procsi ar gyfer maint busnes yn gofyn am rai addasiadau yn y dull hwn wrth gategoreiddio anifeiliaid hela. Mae hyn oherwydd bod lladd-dy sy'n prosesu anifeiliaid hela bach, o safbwynt trwybwn cymharol, yn debycach i safle prosesu dofednod na safle prosesu cig coch. Felly mae'r ASB yn cynnig symleiddio'r gwahaniaeth fel hyn:

- cig coch ac anifeiliaid hela mawr lle bydd y trwybwn yn cael ei bennu yn ôl LSUs
- dofednod, lagomorffiaid ac anifeiliaid hela bach lle bydd y trwybwn yn cael ei bennu yn ôl nifer yr anifeiliaid

8.13 Gan fod trwybwn yn cael ei ddefnyddio fel procsi ar gyfer maint busnes, mae'r categorïau hyn yn darparu'r dosbarthiad cywiraf a bydd ganddynt drothwyon rhifiadol gwahanol ar gyfer pennu cymhwysedd.

Cwestiwn Ymgynghori – Categorïau trwybwn

Er mwyn sicrhau bod y trwybwn yn gweithredu fel y procsi mwyaf effeithiol posib ar gyfer maint y busnes, rydym wedi nodi dau gategori a fydd â gwerthoedd trothwy gwahanol, fel y nodir ym mharagraff 8.12.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â gosod sefydliadau yn y ddau gategori canlynol?

- **cig coch / anifeiliaid hela mawr**
- **dofednod / lagomorffiaid / anifeiliaid hela bach**

Rhowch resymau dros eich atebion gan gynnwys cynigion eraill, os yw'n briodol.

(c) Trosi trwybwn (cig coch / anifeiliaid hela mawr)

8.14 Wrth benderfynu ar yr LSUs i'w defnyddio mewn perthynas â chig coch a chig anifeiliaid hela mawr, ystyriodd yr ASB y cyfraddau trosi a nodir mewn deddfwriaeth fel y manylir yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Cyfraddau trosi LSUs fel y'u nodir mewn deddfwriaeth

Rhywogaeth	Cyfradd drosi (LSUs)	
	Rheoliad 1099/2009 (Lles Anifeiliaid)*	Rheoliad 2019/624 (Rheolaethau Swyddogol)*
Anifeiliaid buchol sy'n oedolion y mae eu pwysau byw yn fwy na 300kg ac Equidae	1	1

Anifeiliaid buchol eraill	0.50	0.50
Moch â phwysau byw dros 100kg	0.20	0.20
Moch eraill	0.15	0.15
Defaid a geifr	0.05	0.10
Ŵyn, mynnau geifr a perchyll (moch bach) y mae eu pwysau byw yn llai na 15kg	0.05	0.10
Ceirw bach (< 100kg o bwysau byw)	Ddim yn berthnasol	0.10
Anifeiliaid hela mawr eraill	Ddim yn berthnasol	0.20

*[Erthygl 17\(6\) o Reoliad a gymathwyd 1099/2009 \(Cymru a Lloegr\)](#) ac [Erthygl 17\(6\) o Reoliad \(UE\) 1099/2009 \(Gogledd Iwerddon\)](#) / [Erthygl 7\(2\) o Reoliad a gymathwyd 2019/624 \(Cymru a Lloegr\)](#) ac [Erthygl 7\(2\) o Reoliad \(UE\) 2019/624 \(Gogledd Iwerddon\)](#).

8.15 Er mwyn symleiddio'r cynnig, ac i gyd-fynd â data a gesglir yn rheolaidd, mae'r ASB yn cynnig pennu trwybwn hanesyddol gan ddefnyddio un gwerth fesul rhywogaeth yn seiliedig ar y gwerthoedd deddfwriaethol uchod, fel yr amlinellir yn Nhabl 2 isod.

Tabl 2: Cyfraddau trosi LSUs arfaethedig i'w defnyddio wrth fesur trwybwn at ddibenion pennu cymhwysedd ar gyfer cefnogaeth

Rhywogaeth	Cyfradd drosi arfaethedig yr ASB (LSUs)
Anifeiliaid buchol, Equidae	1
Moch (gan gynnwys perchyll (moch bach))	0.2
Defaid a geifr (gan gynnwys ŵyn a mynnau geifr)	0.1
Anifeiliaid hela mawr	0.2

Cwestiynau Ymgynghori – Cyfraddau trosi trwybwn

Wrth bennu'r trwybwn, mae'r ASB yn cynnig defnyddio'r cyfraddau trosi unedau da byw a nodir yn Nhabl 2, paragraff 8.15 ar gyfer cig coch ac anifeiliaid hela mawr er mwyn osgoi gorfod cyflwyno casgliad data ychwanegol a defnyddio niferoedd yr anifeiliaid ar gyfer dofednod, lagomorffiaid ac anifeiliaid hela bach.

A ydych chi'n credu bod Unedau Da Byw (gan ddefnyddio'r cyfraddau trosi yn Nhabl 2) yn ddull priodol ar gyfer mesur trwybwn hanesyddol ar gyfer cig coch ac anifeiliaid hela mawr?

A ydych chi'n credu bod nifer yr anifeiliaid yn ddull priodol ar gyfer mesur trwybwn hanesyddol ar gyfer dofednod, lagomorffiaid ac anifeiliaid hela bach?

Rhowch resymau dros eich atebion ac unrhyw dystiolaeth briodol.

(d) Pennu trwybwn hanesyddol pan nad oes digon o ddata

- 8.16 Efallai y bydd sefydliadau sydd wedi bod yn gweithredu am lai na'r cyfnod o dair blynedd a gynigir ar gyfer pennu trwybwn hanesyddol. Mae hefyd yn bosib y bydd sefydliadau lle bydd yr ASB yn penderfynu nad yw'r cyfnod yn gynrychioliadol oherwydd newid sylweddol mewn gweithrediadau a fyddai'n golygu na all y data fod yn brocsi dilys ar gyfer maint y busnes (er enghraifft, cau llinell arwyddocaol).
- 8.17 Mewn achosion o'r fath, lle mae rhwng un a thair blynedd gynhwysol o ddata hanesyddol ar gael, byddai trwybwn yn cael ei gyfrifo ar sail cyfartaledd treigl pob blwyddyn gyfan sydd ar gael. Dim ond blynyddoedd cyfan fyddai'n cael eu defnyddio er mwyn osgoi effeithiau tymhorol. Felly, er enghraifft, pe bai dwy flynedd a hanner o ddata ar gael, byddai'r trwybwn yn cael ei bennu yn seiliedig ar y ddwy flynedd ddiwethaf.
- 8.18 Ar gyfer sefydliadau newydd, neu pan fo llai nag un flwyddyn o ddata hanesyddol cyfatebol ar gael, byddai trwybwn yn cael ei bennu ar sail nominal gan ystyried yr wybodaeth a gasglwyd o'r cais cymeradwyo a gweithgarwch cyn-gymeradwyo arall (er enghraifft, gweithgarwch i ddatblygu'r Datganiad o Adnoddau) ar sail pro rata lle bo angen.
- 8.19 Os mabwysiadir cyfnod safonol o lai na 3 blynedd fel y sail amser ar gyfer pennu trwybwn hanesyddol (er enghraifft, y flwyddyn flaenorol fel y crybwyllir ym mharagraff 8.11), byddai'r dull hwn yn cael ei raddio yn unol â hynny.

(e) Pennu trwybwn hanesyddol ar gyfer sefydliadau categori cymysg

- 8.20 Mae'r dull arfaethedig yn disgwyl i benderfyniad ar drwybwn cig coch ac anifeiliaid hela mawr fod yn seiliedig ar Unedau Da Byw, ond gwneir penderfyniad ar drwybwn dofednod, lagomorffiaid ac anifeiliaid hela bach ar sail nifer yr anifeiliaid. Gellid pennu trwybwn hanesyddol ar gyfer pob categori a phenderfynu ar ostyngiad posib ar sail y rhain.

- 8.21 Y gostyngiad a roddir fyddai'r isaf o'r ddwy ganran gostyngiad berthnasol a bennir drwy gymhwysu'r trothwyon model priodol at y data trwybwn. Dylai hyn sicrhau bod y gostyngiad a gynigir ar gyfer y categori sy'n adlewyrchu natur gyffredinol y busnes yn fwyaf effeithiol. Er enghraifft, pe bai penderfyniad yn cael ei wneud bod sefydliad yn gymwys ar gyfer gostyngiad o 54% yn seiliedig ar ei drwybwn hanesyddol ar gyfer cig coch a gostyngiad o 73% yn seiliedig ar ei drwybwn hanesyddol ar gyfer dofednod, byddai'n cael gostyngiad canrannol sengl o 54% ar ei holl daliadau cymwys.

Cwestiynau Ymgynghori – Trwybwn (ffactorau eraill)

Efallai y bydd amgylchiadau pan na fydd y dull cyffredinol o bennu trwybwn yn gweithio. Rydym wedi ystyried dulliau amgen ym mharagraffau 8.16 – 8.21.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull arfaethedig ar gyfer pennu trwybwn pan nad oes digon o ddata hanesyddol?

Rhowch resymau dros eich ateb ac unrhyw dystiolaeth briodol.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull arfaethedig ar gyfer pennu trwybwn ar gyfer sefydliadau categori cymysg?

Rhowch resymau dros eich ateb ac unrhyw dystiolaeth briodol.

Paramedrau model

- 8.22 Mae'r adran hon yn ceisio safbwyntiau ar weithrediad a gwerth paramedrau allweddol yn y model. Dylid ei hystyried ar y cyd â'r dystiolaeth a nodir yn yr asesiad effaith drafft.
- 8.23 Cafodd y system ostyngiadau bresennol, sy'n gosod sefydliad o fewn bandiau, ei gynllunio yn seiliedig ar safle degymol cymharol ('relative decile ranking'). Mae hyn yn golygu y dylai'r 10% lleiaf o fusnesau – mewn categori a fesurir yn ôl yr oriau milfeddygon swyddogol/arolygwyr hylendid cig a ddefnyddir ganddynt – gael eu gosod ym Mand 1, y ddwy ddengradd nesaf ym Mand 2 ac yn y blaen hyd at Fand 6, sef y 10% mwyaf o fusnesau. Mae'r system hon yn seiliedig ar geisio darparu ar gyfer angen cymharol yn hytrach nag angen absoliwt er mwyn rhannu cronfa gymorthdaliadau.
- 8.24 Mae hyn yn golygu, wrth i fusnesau dyfu neu gyfuno, neu wrth i fusnesau llai gau, sydd wedi digwydd i raddau helaeth ers i'r system gael ei chynllunio, fod sefydliadau sy'n wrthrychol fwy ac nad ydynt yn profi beichiau rheoleiddio anghymesur yn cael eu neilltuo i fandiau is. I'r gwrthwyneb, ni allai busnes newydd sy'n dymuno agor fod yn sicr o'i ostyngiad o flwyddyn i flwyddyn gan y gallai newidiadau mewn mannau eraill effeithio'n sylweddol ar ei safle cymharol ac, o ganlyniad, ar ei ostyngiad, gan gyflwyno rhwystr i newydd-ddyfodiaid.
- 8.25 Un o brif nodweddion y model arfaethedig yw bod lefel y gefnogaeth yn gysylltiedig â mesurau maint absoliwt yn hytrach na mesurau maint cymharol.

Drwy gysylltu'r gefnogaeth â mesurau maint absoliwt, byddai nifer o'r busnesau lleiaf yn wrthrychol yn gweld cynnydd yn y gefnogaeth maen nhw'n ei chael, a byddai'r gefnogaeth yn fwy rhagweladwy o flwyddyn i flwyddyn.

- 8.26 Byddai cymhwysedd yn cael ei bennu ar gyfer pob sefydliad yn flynyddol, ar gyfer y flwyddyn ariannol lawn i ddod. Ar gyfer sefydliadau cymwys, byddai gostyngiad canrannol yn cael ei gymhwyso at daliadau am yr holl oriau cymwys a wneir gan filfeddygon swyddogol/arolygwyr hylendid cig ac a ddefnyddir gan y sefydliad hwnnw yn ystod y flwyddyn ariannol.

Lefel uchaf o gefnogaeth (gostyngiad canrannol uchaf ar gost lawn ar gyfer sefydliadau cymwys)

- 8.27 Mae'r ASB yn cynnig, o dan y system gefnogaeth ddiwygiedig, y dylai uchafswm y gefnogaeth a roddir ar gyfer taliadau cymwys ar gyfer sefydliadau cymwys yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr mewn blwyddyn ariannol fod ar lefel o 90%. Bydd hyn yn cydraddoli beichiau rheoleiddiol cyn belled ag y bo modd gan gynnal cymhelliant cost ar gyfer defnydd effeithiol o amser milfeddygon swyddogol/arolygwyr hylendid cig gan y diwydiant.

Cwestiwn Ymgynghori – Y lefel uchaf o gefnogaeth

Mae'r ASB yn cynnig lefel uchaf o gefnogaeth i sefydliadau cymwys yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o 90%, fel y disgrifir ym mharagraff 8.27.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r lefel uchaf arfaethedig o ostyngiadau?

Rhowch resymau i egluro'ch ateb.

(a) Trothwy 1

- 8.28 Trothwy 1 yw'r pwynt terfynol lle mae'r gefnogaeth fwyaf (gostyngiad o 90%) yn dod i ben. Y bwriad yw na ddylai Trothwy 1 newid bob blwyddyn ond, yn hytrach, y dylai fod yn seiliedig ar ddiffiniad gwrthrychol o 'fach' i sicrhau symmrwydd ac eglurder. Mae'r ASB yn cynnig y dylid seilio hyn ar y diffiniadau 'capasiti isel' mewn deddfwriaeth, sef Erthygl 7(1)(a) o [Reoliad a gymathwyd 2019/624 \(Cymru a Lloegr\)](#) ac Erthygl 7(1)(a) o [Reoliad \(UE\) 2019/624 \(Gogledd Iwerddon\)](#):
- 1,000 o unedau da byw y flwyddyn ar gyfer cig coch / anifeiliaid hela mawr
 - 150,150 o ddofednod / lagomorffiaid / anifeiliaid hela bach y flwyddyn
- 8.29 Os bydd yr ASB yn credu bod angen unrhyw newid i Drothwy 1 er mwyn parhau i fodloni rhesymeg ac amcanion y Bwrdd – er enghraifft, yn dilyn adolygiad cyfnodol neu newid yn y ddeddfwriaeth y mae Trothwy 1 yn seiliedig arni (fel y manylir uchod) – byddai'n cadw'r disgresiwn i wneud hyn ac yn ystyried natur unrhyw newid ar y cyd â rhanddeiliaid.

Cwestiwn Ymgynghori – Trothwy 1

Mae'r ASB yn cynnig y dylid pennu Trothwy 1 fel y pwynt terfynol lle mae'r gefnogaeth fwyaf yn dod i ben ac y dylid ei osod ar 1,000 o unedau da byw y flwyddyn ar gyfer cig coch / anifeiliaid hela mawr a 150,000 o ddofednod, lagomorffiaid ac anifeiliaid hela bach y flwyddyn, fel y manylir ym mharagraff 8.28.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â gosod Trothwy 1 ar 1,000 o unedau da byw y flwyddyn ar gyfer cig coch / anifeiliaid hela mawr a 150,000 o ddofednod / lagomorffiaid / anifeiliaid hela bach y flwyddyn?

Rhowch resymau i egluro'ch ateb.

(b) Cefnogaeth ostyngol a Throthwy 2

- 8.30 Mae'r gostyngiad graddol mewn cefnogaeth yn berthnasol i sefydliadau sydd â thrwybwn hanesyddol sy'n disgyn rhwng Trothwy 1 a Throthwy 2. Byddai'r gyfradd ar gyfer cefnogaeth ostyngol yn dechrau ar Drothwy 1. Byddai gostyngiad llinol yn y gefnogaeth a ddarperir o Drothwy 1 (gostyngiad o 90%) i lawr i Drothwy 2 (gostyngiad o 0%). Bydd unrhyw sefydliad â thrwybwn hanesyddol sy'n golygu ei fod yn gymwys am gefnogaeth ostyngol yn cael gostyngiad canrannol rhwng 90% a 0%. Bydd hyn yn cael ei gymhwyso at yr holl oriau cymwys y codir tâl ar eu cyfer mewn blwyddyn ariannol.
- 8.31 Mae Trothwy 2 yn nodi'r pwynt pan fo'r gefnogaeth ostyngol, ac felly'r cymhwysedd i gael unrhyw gefnogaeth, yn dod i ben. Bydd lleoliad Trothwy 2 hefyd yn penderfynu pa mor serth yw'r gefnogaeth ostyngol, ac felly dros ba ystod o drwybwn hanesyddol y bydd y gefnogaeth yn lleihau o Drothwy 1 (gostyngiad o 90%) i ostyngiad i 0%.
- 8.32 Prif bwrpas y gefnogaeth ostyngol yw osgoi sefyllfa lle mae'r gefnogaeth yn gostwng yn sydyn iawn, a allai greu rhwystr ar unwaith i fusnesau llai y mae eu trwybwn hanesyddol yn mynd y tu hwnt i Drothwy 1. I gyflawni'r nod hwn, byddai angen gosod Trothwy 2 fel bod sefydliad bach sy'n derbyn y gostyngiad mwyaf yn gallu tyfu i raddau realistig, a pharhau i gael cefnogaeth barhaus wrth iddo dyfu.
- 8.33 Mae hyn yn gosod ffin is i bob pwrpas ar gyfer penderfynu ble i osod Trothwy 2. Os yw'n rhy agos at Drothwy 1, nid oes modd i fusnes dyfu heb golli cyfran fawr o'r gostyngiad. Gallai twf realistig ar gyfer sefydliadau o'r fath gynnwys ychwanegu ail linell gynhyrchu neu weithio diwrnodau ychwanegol. Ar y sail hon, rydym wedi tybio bod ffin is ar gyfer gosod Trothwy 2 yn ddwy i dair gwaith Trothwy 1.
- 8.34 Fel y nodwyd yn Adran 6 (o baragraff 6.8), elfen allweddol o'r dull arfaethedig yw cydraddoli'r baich rheoleiddio ar gyfer busnesau. Mae'r gostyngiad mwyaf hyd at Drothwy 1 yn gwneud hyn ar gyfer y busnesau lleiaf. Gellir defnyddio lleoliad Trothwy 2, sy'n ymestyn y gefnogaeth ostyngol, fel ffordd o gydraddoli'r baich rheoleiddio cyfartalog rhwng y sefydliadau lleiaf a mwyaf. Fodd bynnag, mae terfyn uchaf i'r manteision o wneud hyn. Os yw Trothwy 2, ac felly'r gefnogaeth

ostyngol, yn rhy fawr, gall sefydliadau rhwng Trothwy 1 a Throthwy 2 gael eu 'gorddigolledu'. Yn yr achos hwnnw, byddai'r baich rheoleiddiol fesul LSU/anifail yn is na meincnod y lladd-dai mwyaf effeithlon.

- 8.35 Mae gwaith ymgysylltu hyd yma yn dangos bod hyn yn annymunol ac na ddylid, fel rheol, roi cefnogaeth i ladd-dai bach i'r graddau hyn. I bob pwrpas, mae'r cyfyngiad hwn yn creu terfyn uchaf ar gyfer ble y gellir gosod Trothwy 2. Er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o hyblygrwydd i fodloni'r ddau ofyniad ac i symud Trothwy 2 i'w reoli o fewn y dyraniad cyllid (gweler isod) heb dorri'r naill na'r llall o'r cyfyngiadau hyn, mae'r ASB yn cynnig y dylid gosod Trothwy 2 ar lefel sydd bum gwaith yn uwch na Throthwy 1, sy'n cyfateb i 5000 LSUs ar gyfer cig coch / anifeiliaid hela mawr a 750,000 o anifeiliaid ar gyfer dofednod / lagomorffiaid / anifeiliaid hela bach.

Cwestiwn Ymgynghori – Cefnogaeth ostyngol a Throthwy 2

Mae'r ASB yn cynnig cael gwared ar ostyngiadau ar gyfer y busnesau mwyaf, (y rhai sydd â thrwybwn hanesyddol dros Drothwy 2 yn y model), a chyflwyno cefnogaeth ar gyfradd ostyngol rhwng Trothwy 1 (y pwynt terfynol lle mae'r gefnogaeth fwyaf yn dod i ben) a Throthwy 2 er mwyn lleihau rhwystrau i dwf busnesau llai, fel yr eglurir ym mharagraffau 8.30 – 8.35.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd darparu cefnogaeth ostyngol rhwng Trothwy 1 a Throthwy 2 yn helpu i osgoi cwmp sydyn mewn cefnogaeth?

Rhowch resymau i egluro'ch ateb.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd y model yn caniatáu twf busnes realistig i ladd-dai llai?

Rhowch resymau i egluro'ch ateb.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr egwyddorion a ddefnyddir i osod ffiniau Trothwy 2 yn creu cydbwysedd teg rhwng cefnogi busnesau llai ac osgoi cystadleuaeth annheg neu or-ddigolledu?

Rhowch resymau i egluro'ch ateb.

Mae cwestiynau am effaith niferoedd penodol i'w gweld yn Adran 10 ar 'Effeithiau' isod.

Nodweddion ychwanegol


Rheoli o fewn dyraniad cyllid yr ASB

- 8.36 Bydd angen i'r ASB ariannu'r gostyngiadau ar gyfer 2027/28 a 2028/29 fel rhan o'i Setliad Adolygiad Gwariant presennol (gweler paragraff 10.1 isod). O 2029/30 ymlaen, bydd angen i'r ASB wneud cais am gyllid i ddarparu gostyngiad yn ôl y model fel rhan o bob Adolygiad Gwariant. O fewn pob cyfnod Adolygu Gwariant,

efallai y bydd rhywfaint o amrywiad rhwng y setliad a'n dyraniad blynyddol oherwydd naill ai gynnydd mewn costau neu arbedion effeithlonrwydd. Byddai gallu'r ASB i addasu lle y caiff Trothwy 2 ei osod (ac felly pa mor serth yw'r gostyngiad mewn cefnogaeth) yn flynyddol yn darparu mecanwaith i reoli'r amrywiadau hyn.

- 8.37 Mae newidiadau cost o flwyddyn i flwyddyn yn cael eu modelu cyn belled ag y bo modd; mae cais am gyllid yn cael ei wneud, a chaiff y cyllid ei reoli yn unol â hynny. Byddai'r rhan fwyaf o newid yn cael ei reoli drwy'r systemau hyn. Dim ond os oes angen, ac fel rhan o'r broses flynyddol o osod y gostyngiad, y byddai addasiad pellach i'r gefnogaeth ostyngol yn cael ei wneud. Ni fyddai newidiadau'n cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn.
- 8.38 Byddai addasu safle Trothwy 2 yn cael effaith ar lefel y gostyngiad i fusnesau sy'n derbyn cefnogaeth yn ôl y gyfradd ostyngol. Gan ein bod yn cynnig y byddai Trothwy 1 yn sefydlog (gweler paragraff 8.28 uchod), byddai'r amrywiad leiaf ar gyfer y busnesau lleiaf, sydd â thrwybwn hanesyddol ychydig y tu hwnt i Drothwy 1. Byddai unrhyw newid ar ei fwyaf i'r rhai sydd agosaf at Drothwy 2. Mae effaith y dull hwn o reoli amrywiadau o fewn cyllidebau yn gyson â'r dull polisi cyffredinol, gan y byddai'n cael yr effaith leiaf ar y busnesau lleiaf hynny sy'n ceisio tyfu y tu hwnt i Drothwy 1, ond newid cymharol fach yn lefel y costau wedi'u cydraddoli a gyflawnir drwy'r gefnogaeth ostyngol ar gyfer y rhai sy'n agos at Drothwy 2. Mae hyn i'w weld yn y diagram isod.

Ffigur 2: Darlun o amrywiad Trothwy 2



Cefnogaeth ddisgresiynol

- 8.39 O dan y system arfaethedig, byddai'r ASB yn cadw'r disgresiwn i fynd i'r afael ag unrhyw amgylchiadau eithriadol. Mae hyn yn unol â'r egwyddor sefydledig na ddylai'r llywodraeth gyfyngu ar ei disgresiwn a gwrthod ystyried eithriadau dilyn i reolau wrth arfer ei phwerau, gan gynnwys darparu cyllid. Disgwylir y byddai'r disgresiwn hwn yn cael ei ddefnyddio ar gais gweinidogion, gyda chynghor yr ASB, yn unol â Chanllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus. Y bwriad fyddai i unrhyw newidiadau gael eu cymhwyso fel rhan o'r broses flynyddol o osod gostyngiadau a ffioedd yn hytrach na gwneud unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn.
- 8.40 Byddai gan yr ASB y gallu i fynd i'r afael ag unrhyw amgylchiadau a allai arwain at ganlyniadau niweidiol i'r sefydliadau hynny y mae'r system i fod i'w cefnogi, a hynny heb wneud newidiadau sylfaenol i'r system gyffredinol. Byddai hefyd yn galluogi'r ASB i ymateb i unrhyw amheuaeth o gamdrin y system. Nid yw'r ASB yn cynnig creu unrhyw fecanwaith lle gall busnesau unigol wneud cais am gefnogaeth ddisgresiynol.

9. Dull Gogledd Iwerddon

- 9.1 Mae'r adran hon yn nodi dulliau posib o fynd i'r afael â'r amgylchedd busnes penodol yng Ngogledd Iwerddon (yn amodol ar dystiolaeth a chyfiawnhad).
- 9.2 Mae strwythurau amaethyddol a busnesau Gogledd Iwerddon yn wahanol iawn i rai Cymru a Lloegr, ac mae'r gyllideb yno wedi'i datganoli. I gyfrif am hyn, caiff y taliadau eu gosod ar sail debyg ond gwneir penderfyniadau arnynt ar wahân, fel sy'n digwydd gyda rhai elfennau o'r cynllun gostyngiadau presennol.
- 9.3 Ar sail yr alwad am dystiolaeth yn 2024 a'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a wnaed ers hynny, mae rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu, oherwydd y gwahaniaethau yng nghadwyn cyflenwi bwyd-amaeth Gogledd Iwerddon, y gallai fod cyfiawnhad dros ddarparu cefnogaeth ddisgresiynol i ladd-dai mwy yng Ngogledd Iwerddon yn benodol. Mae hyn o ganlyniad i'r canlynol:
- strwythur y system ffermio yng Ngogledd Iwerddon, sy'n cynnwys llawer mwy o ffermydd bach
 - effaith bosib y strwythurau hyn ar effeithlonrwydd gweithredol cynnal rheolaethau mewn lladd-dai yng Ngogledd Iwerddon
 - y potensial ar gyfer symud anifeiliaid ar draws y ffin i'w lladd mewn busnesau yng Ngweriniaeth Iwerddon sy'n cael mwy o gymhorthdal
- 9.4 Fel y nodir yn Adran 6, rydym yn chwilio am dystiolaeth bellach i benderfynu ar effaith y gwahaniaethau hyn ar gyflawni'r canlyniadau dymunol yn llwyddiannus yng Ngogledd Iwerddon yn unol â rhesymeg Bwrdd yr ASB. Mae gweddill yr adran hon yn ceisio safbwyntiau ar egwyddorion ar gyfer sut y gellid lliniaru effeithiau'r gwahaniaethau hyn os yw'r angen am hyn yn cael ei gefnogi gan y dystiolaeth a ddarparwyd. Gwaith paratoadol yw hwn i sicrhau ein bod wedi ymgynghori'n gyhoeddus ar ddulliau posib, a bod gennym y dystiolaeth orau wrth law i gynghori

gweinidogion. Gellid gweithredu unrhyw wahaniaeth yng Ngogledd Iwerddon ochr yn ochr â chynllun Cymru a Lloegr, gan osgoi gwahaniaethau yn y tymor byr. Nid yw'n rhagflaenu unrhyw benderfyniad gweinidogol.

- 9.5 Fel gyda'r dull presennol, mae'n ddymunol bod â'r un model sylfaenol ar waith yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a dyma sail y cynnig cyffredinol. Fodd bynnag, os gellir cyflwyno digon o dystiolaeth i weinidogion yng Ngogledd Iwerddon, gallant ddefnyddio'r disgresiwn sydd ar gael i bennu bod modd cyfiawnhau rhoi cefnogaeth ddisgresiynol i ladd-dai mwy o faint.

Integreiddio â'r model sylfaenol

- 9.6 Bydd y rhesymeg a'r rhagdybiaethau gwreiddiol dros gefnogi lladd-dai llai yn dal i fod yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon. Felly, mae angen i ni sicrhau na fyddai unrhyw gefnogaeth ddisgresiynol i ladd-dai mwy yng Ngogledd Iwerddon yn digwydd ar draul cefnogaeth i ladd-dai llai, p'un a ydynt yn gweithredu'n barod neu heb eu sefydlu eto. Er mwyn sicrhau hyn, cynigir defnyddio'r egwyddorion canlynol:

- Byddai unrhyw gefnogaeth ddisgresiynol ar gyfer lladd-dai mwy yn cael ei gosod ar ben y model sylfaenol fel ei bod yn aros o fewn y dyraniad cyllid.
- Bydd unrhyw ladd-dai llai sy'n gymwys i gael cefnogaeth o dan y model sylfaenol yn derbyn yr un buddion â'r rhai yng Nghymru a Lloegr o ran gostyngiad canrannol.
- Ni fyddai cefnogaeth i ladd-dai llai yn cael ei haddasu i gydbwysu cyllidebau. Yn hytrach, byddai hyn yn cael ei wneud drwy addasu unrhyw elfen o gefnogaeth ddisgresiynol o'r dyraniad cyllid. Os na roddir unrhyw gefnogaeth ar sail ddisgresiynol, yna byddai'r gwaith o reoli'r gyllideb yn dilyn y cynnig model sylfaenol o addasu i Drothwy 2 (paragraffau 8.36 – 8.38).
- Fel gyda'r cynnig sylfaenol, byddai cymhwysedd ar gyfer gostyngiad a lefel y gostyngiad ar gyfer sefydliadau cymwys yn cael ei bennu'n flynyddol ac nid yn ystod y flwyddyn (ac eithrio unrhyw sefydliadau newydd sy'n dod i mewn i'r sector yn ystod y flwyddyn).

Egwyddorion ar gyfer cefnogaeth ddisgresiynol

- 9.7 Fel y nodir ym mharagraff 6.5, mae dau ffactor sy'n ysgogi'r angen i gefnogi lladd-dai llai:

- mae busnesau llai yn ei chael hi'n anodd ysgwyddo costau cynyddol eu hunain; y lladd-dai llai **a'r busnesau llai maent yn eu gwasanaethu**
- mae'r ffordd y mae'r ASB yn cynnal rheolaethau rheoleiddiol yn **fwyaf effeithlon i'r busnesau mwyaf**, felly mae lladd-dai bach yn wynebu baich rheoleiddiol anghymesur

- 9.8 I'r gwrthwyneb, nid oes tystiolaeth i awgrymu bod y ffactorau hyn yn berthnasol i ladd-dai mawr yng Nghymru a Lloegr, felly tybir eu bod yn gallu trosglwyddo costau a darparu'r meincnod ar gyfer effeithlonrwydd. Fodd bynnag, mae'r testun trwm uchod yn nodi'r meysydd lle gallai'r gwahaniaethau yn strwythurau amaethyddol Gogledd Iwerddon olygu bod yr heriau hyn yn berthnasol, i ryw raddau, i ladd-dai mwy yng Ngogledd Iwerddon sef:
- Er nad yw'r lladd-dai eu hunain yn fach, mae nifer anghymesur o ffermydd bach sy'n eu cyflenwi, gan waethygu effaith negyddol trosglwyddo costau rheoleiddio.
 - Gall rheoli'r broses gyda nifer fawr o gyflenwyr bach arwain at fwy o faich rheoleiddio na lladd-dai o faint tebyg yng Nghymru a Lloegr, oherwydd efallai nad oes modd graddio pob gweithgaredd rheoleiddio. O ganlyniad, gall y meincnod effeithlonrwydd fod yn wahanol.
 - Yn ogystal, mae lladd-dai yng Ngogledd Iwerddon yn wynebu cystadleuaeth â lladd-dai trawsffiniol, o ran caffael da byw ac o ran marchnata cynnyrch.
- 9.9 Fel y nodwyd ym mharagraff 6.8 ar gydraddoli beichiau, mae yna ystod o ffactorau sy'n effeithio ar fodolau busnes ac nid dyletswydd yr ASB yw mynd i'r afael â phob un ohonynt. O safbwynt baich rheoleiddio, dim ond i fynd i'r afael ag effaith anochel sy'n deillio o'r system ostyngiadau ddiwygiedig arfaethedig y byddai cefnogaeth ddisgresiynol yn cael ei defnyddio – yn benodol, effeithiau ar ffermwyr bach, effeithlonrwydd rheoleiddio neu gystadleuaeth drawsffiniol. Dyma'r sail ar gyfer yr egwyddorion isod.
- 9.10 Er mwyn osgoi gor-ddigolledu am newid o ran gosod lefel unrhyw gefnogaeth ddisgresiynol ar gyfer lladd-dai mwy yng Ngogledd Iwerddon, cynigir dwy egwyddor gyffredinol:
- ni ddylai cyfanswm y gefnogaeth gyffredinol (gan gynnwys unrhyw gefnogaeth ddisgresiynol) fod yn fwy na'r lefelau hynny ar gyfer 2026/27
 - ni ddylai unrhyw sefydliad unigol gael gostyngiad canrannol effeithiol sy'n fwy na'r hynny a gafwyd yn 2026/27
- 9.11 Er mwyn pennu cymhwysedd ar gyfer unrhyw gefnogaeth ddisgresiynol i ladd-dai mwy yng Ngogledd Iwerddon, cynigir yr egwyddorion canlynol:
- mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar sectorau (hynny yw, cig coch/dofednod ac ati) yn hytrach na chreu proses feichus i asesu amgylchiadau unigol sefydliadau
 - byddai sectorau cymwys yn cynnwys y rheiny:
 - sydd â thystiolaeth i ddangos nad oes modd ysgwyddo costau ychwanegol ac y byddant yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i ffermwyr bach

- sydd â thystiolaeth i ddangos bod natur y ffermwyr sy'n cyflenwi'r lladd-dy, a/neu'r ffordd y maent yn gwneud hynny, yn arwain at brosesau sy'n lleihau effeithlonrwydd rheoleiddio
- byddai sectorau anghymwys yn cynnwys y rheiny:
 - lle nad yw'r naill na'r llall o'r meini prawf uchod o ran cymhwysedd yn berthnasol ac nad oes tystiolaeth sylweddol o gystadleuaeth drawsffiniol
 - lle mae tystiolaeth bod costau'n debygol o gael eu hysgwyddo neu eu trosglwyddo drwy'r gadwyn i'r defnyddiwr
- ni fyddai cymhwysedd sector yn destun newid rheolaidd, ond bydd yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn barhaus â rhesymeg Bwrdd yr ASB dros gynnig cefnogaeth

9.12 Byddai cymhwysedd sector yn cael ei bennu yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn, yn amodol ar unrhyw newid a allai fod yn angenrheidiol yn seiliedig ar ragor o dystiolaeth a gyflwynir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Dulliau posib o bennu cefnogaeth ddisgresiynol ar gyfer lladd-dai mwy o fewn sector cymwys

- 9.13 Er mwyn pennu lefel unrhyw gefnogaeth ddisgresiynol ar gyfer lladd-dai mwy yng Ngogledd Iwerddon o fewn yr egwyddorion cyffredinol a nodir ym mharagraff 9.10, rydym wedi nodi dau ddull posib. Mae'r ddau ddull â rhagdybiaeth sylfaenol wahanol o sut mae beichiau rheoleiddio yn amrywio yn ôl maint ar gyfer sefydliadau â thrwybwn uwchlaw Trothwy 2 yng Ngogledd Iwerddon:
- (a) **Tybiaeth bod pob lladd-dy mwy o fewn sector cymwys yn destun beichiau cyfatebol ni waeth beth fo'u maint.** Byddai pob sefydliad yn derbyn yr un gostyngiad canrannol ar bob awr gymwys. Pan gaiff ei gyfuno â'r ail egwyddor cyffredinol ym mharagraff 9.10, sef na ddylai unrhyw sefydliad gael gostyngiad effeithiol mwy nag yn 2026/27, sy'n cyfateb i feincnodi'r gostyngiad mwyaf â'r un a geir gan y sefydliad mwyaf (y sefydliad mwyaf effeithlon yn ddamcaniaethol). Byddai lefel wirioneddol y gostyngiad hefyd yn cael ei chyfyngu gan yr egwyddor gyntaf na ddylai cyfanswm y gefnogaeth (gan gynnwys unrhyw gefnogaeth ddisgresiynol) fod yn fwy na lefelau 2026/27, felly gallai fod islaw lefel 2026/27.
 - (b) **Tybiaeth bod maint lladd-dai'n effeithio ar effeithlonrwydd rheoleiddio rhwng lladd-dai mwy o fewn sector cymwys.** Byddai pob sefydliad yn derbyn gostyngiad canrannol ar yr holl oriau cymwys yn seiliedig ar ostyngiad sy'n gysylltiedig â thrwybwn yn ymestyn y tu hwnt i Drothwy 2, gyda'r sefydliadau mwyaf yn y sector yn cael llai o gefnogaeth, a hynny mewn modd cymesur. Byddai pwyntiau cychwyn a gorffen y gefnogaeth ostyngol yn dibynnu ar y cyllid a ddyrannwyd ar gyfer cefnogaeth ddisgresiynol.

- 9.14 Yn amodol ar ddarparu tystiolaeth gref sy'n dangos bod y meini prawf ar gyfer cefnogaeth ym mharagraff 9.8 yn cael eu bodloni, byddai lefel unrhyw gefnogaeth ddisgresiynol ar gyfer lladd-dai mwy yng Ngogledd Iwerddon o fewn sectorau cymwys yn cael ei sefydlu yn seiliedig ar y dulliau posib a amlinellir ym mharagraff 9.13. Mae hyn ar yr amod nad yw tystiolaeth arall yn cael ei chyflwyno mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn sy'n awgrymu bod angen ystyried newidiadau neu ddewisiadau eraill.

Cwestiynau ymgynghori – Dull Gogledd Iwerddon

Mae'r cwestiynau yn Adran 9 yn ceisio tystiolaeth o'r angen am gefnogaeth ddisgresiynol ychwanegol yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r cwestiynau dilynol yn ceisio tystiolaeth ar sut y dylid rhoi cefnogaeth o'r fath ar waith os dangosir bod ei hangen.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r egwyddorion a nodir ym mharagraff 9.6 ar gyfer integreiddio'r model sylfaenol ag unrhyw gefnogaeth ddisgresiynol yng Ngogledd Iwerddon?

Rhowch resymau dros eich ateb yn ogystal â thystiolaeth os yw'n berthnasol.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer gosod lefel y gefnogaeth i bob sefydliad fel y'i nodir ym mharagraff 9.10?

Rhowch resymau dros eich ateb yn ogystal â thystiolaeth os yw'n berthnasol.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r egwyddorion o ran cymhwysedd a nodir ym mharagraff 9.11?

Rhowch resymau dros eich ateb yn ogystal â thystiolaeth os yw'n berthnasol.

Rydym wedi nodi dau ddull posib o gymhwyso cefnogaeth ddisgresiynol i ladd-dai mwy. Pa un o'r rhagdybiaethau canlynol am yr angen am gefnogaeth ddisgresiynol sy'n adlewyrchu'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon orau yn eich barn chi?

- Mae'r angen yr un fath ar gyfer pob lladd-dy mawr
- Mae'r angen yn amrywio yn ôl maint y lladd-dy
- Ddim yn gwybod
- Arall (nodwch)

A ydych chi'n cytuno bod y ddau ddull a nodir ym mharagraff 9.13 yn cymhwyso'r egwyddorion cyffredinol yn 9.10 yn effeithiol ar gyfer gosod lefel y gefnogaeth?

Rhowch resymau dros eich atebion yn ogystal â thystiolaeth, os yw'n berthnasol.

Rydym wedi nodi'r egwyddorion ynghylch sut y gellir cymhwyso disgresiwn yn seiliedig ar ein dealltwriaeth bresennol o'r sefyllfa benodol yng Ngogledd Iwerddon. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn newid y ddealltwriaeth hon. Pa gynnig neu gynigion amgen, os o gwbl, sydd gennych mewn perthynas â chymhwyso cefnogaeth ddisgresiynol yng Ngogledd Iwerddon?

Eglurwch pam rydych chi'n credu y byddai eich dull chi'n well na'r cynnig yn yr ymgynghoriad hwn a sut y byddai'n fuddiol i amrywiaeth mewn ffermio a dewis i ddefnyddwyr.

10. Y cyfnod pontio ac adolygu

Y system arfaethedig a'r cyfnod pontio

- 10.1 Mae cyfnod yr Adolygiad Gwariant presennol yn para am dair blynedd ariannol, o 2026/27 i 2028/29, ac yn caniatáu i'r newid gael ei weithredu dros y cyfnod hwn. Mae'r ASB yn cynnig y byddai'r system gefnogaeth ddiwygiedig ei hun yn dechrau o 2027/28, gyda'r cyfnod pontio'n cael ei gwblhau erbyn diwedd y Cyfnod Adolygu Gwariant.
- 10.2 Yn ei gyfarfodydd cyhoeddus ym mis Mehefin a mis Rhagfyr 2025, nododd Bwrdd yr ASB y dylai'r gostyngiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27 fodloni canlyniadau dymunol y system ddiwygiedig, cyn belled ag y bo'n bosib o fewn cyfyngiadau'r cynllun presennol. O'r herwydd, bydd y cyfnod pontio ar gyfer y rhesymeg a'r canlyniadau dymunol yn dechrau yn 2026/27, er na fydd y cynllun ei hun yn newid tan 2027/28.
- 10.3 Wrth weithio i gyflawni rhesymeg y Bwrdd cyn belled ag y bo modd yn 2026/27, bydd yr ASB yn diogelu'r band uchaf o ostyngiad (90%) ac yn cynnal gostyngiad canrannol ym Mand 2 (75%). Bydd hyn yn arwain at ostyngiad yn nifer yr oriau ym Mand 2. Ni fydd unrhyw ostyngiad ar gyfer bandiau 3–6. Nod y dull hwn yw:
- sicrhau bod y gostyngiad yn parhau i gynnig y lefel uchaf o gefnogaeth gyfrannol i'r lladd-dai lleiaf sy'n bodloni rhesymeg y Bwrdd
 - lleihau'r perygl y bydd sefydliadau sy'n gymwys i gael gostyngiad o dan y system gefnogaeth ddiwygiedig yn cael llawer llai o gefnogaeth yn 2026/27 nag y byddent yn ei chael o dan y system ddiwygiedig, ac yn yr un modd, osgoi effeithiau o flwyddyn i flwyddyn ar fusnesau mawr er mwyn hwyluso cynllunio
 - sicrhau cyfnod pontio llyfn wrth symud o'r system bresennol i'r system ddiwygiedig drwy gyflwyno newidiadau ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2026/27 sydd ag effaith resymol gyfwerth
- 10.4 Byddai'r system ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno yn ystod blwyddyn ariannol 2027/28 fel blwyddyn bontio arall. Er mwyn cyflawni hyn, cynigir y canlynol:
- caiff Trothwy 1 ei osod ar ei werth terfynol fel bod y busnesau llai hynny a fydd yn elwa o'r newid yn cael y budd ar unwaith
 - caiff Trothwy 2 ei osod ar drwybwn uwch na'i werth terfynol fel y gall mwy o ladd-dai maint canolig barhau i elwa o ostyngiad yn y flwyddyn bontio
 - cyn belled ag y bo modd, gwneir hyn i sicrhau cyfnod pontio llyfn rhwng 2026/27 a'r pwynt terfynol
 - bydd cyfanswm cost y gefnogaeth o fewn y dyraniad cyllid sydd ar gael, gan flaenoriaethu cyflawni'r ymrwymiad o 90% i fusnesau llai

Cwestiwn Ymgynghori – Pontio ac adolygu

Mae'r ASB yn cydnabod yr angen am gyfnod pontio llyfn ar gyfer y system gefnogaeth ddiwygiedig ac mae wedi nodi ei chynigion ar gyfer hyn yn Adran 10.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ag egwyddorion y trefniadau trosiannol a nodir ym mharagraff 10.4?

Rhowch reswm dros eich ateb gan gynnwys cynigion eraill, os yw'n briodol.

Adolygiad o'r system arfaethedig

- 10.5 Yn ogystal â monitro'r system ddiwygiedig yn barhaus, gan gynnwys fel rhan o'r broses flynyddol i osod taliadau, sefydlu cymhwysedd a lefelau gostyngiadau ar gyfer gweithredwyr cymwys ar gyfer pob blwyddyn ariannol sydd i ddod, mae'r ASB yn cynnig y byddai'n:
- cynnal adolygiad o weithrediad y system gefnogaeth ddiwygiedig ar ôl iddi fod ar waith am 5 mlynedd ariannol (hynny yw, bydd adolygiad yn 2032/33)
 - cynnal adolygiad sylfaenol o'r system gefnogaeth ddiwygiedig ar ôl iddi fod ar waith am 10 mlynedd ariannol (hynny yw, bydd adolygiad sylfaenol yn 2037/38)

Elfennau posib i'w hychwanegu at y system arfaethedig yn y dyfodol

- 10.6 Mae'r ASB yn cynnig y byddai'r system ddiwygiedig yn gweithredu i ddechrau fel y disgrifir uchod yn yr ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag mae'r ASB hefyd yn manteisio ar yr ymgynghoriad hwn i geisio safbwyntiau rhanddeiliaid ar elfennau y gellid eu cyflwyno yn y dyfodol. Mae'r rhain yn welliannau pellach a awgrymwyd wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid a Bwrdd yr ASB hyd yn hyn, ond roedd teimlad bod angen eu hystyried yn fwy a chynnig rhagor o dystiolaeth. Ni fyddai'r elfennau ychwanegol a drafodir yn yr adran hon yn cael eu gweithredu fel rhan o'r newidiadau i'r system gefnogaeth ddiwygiedig ym mis Ebrill 2027. Fodd bynnag, gellir eu hystyried fel rhai i'w gweithredu yn y dyfodol, yn amodol ar waith ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid, gan roi sylw dyledus i ymatebion perthnasol i'r ymgynghoriad hwn.

Cysylltu cymhwysedd ar gyfer cefnogaeth a lefel y gefnogaeth â ffactorau ehangach

- 10.7 Mae Bwrdd yr ASB wedi gofyn i ni ystyried elfennau ychwanegol posib yn y dyfodol, gan gynnwys sut y gellid targedu cefnogaeth i gydnabod ffactorau fel cydymffurfio â safonau ansawdd a lles anifeiliaid.
- 10.8 Cafwyd safbwyntiau cymysg ar gysylltu cefnogaeth â chydymffurfiaeth wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylai unrhyw achosion parhaus o ddiffyg cydymffurfio effeithio ar gymhwysedd i gael cefnogaeth. Nododd eraill fod gan yr ASB bwerau a chosbau gorfodi eisoes i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio. Roedd rhai'n teimlo y gallai cyfyngiadau strwythurol olygu y gallai

gweithredwyr bach gael eu cosbi'n annheg, a gallai llai o gefnogaeth yn sgil diffyg cydymffurfio gyfyngu ar eu gallu i gymryd y camau unioni angenrheidiol ac felly fod yn wrthgynhyrchol.

- 10.9 Mae'r ASB hefyd yn ceisio safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch a ddylai cymhwysedd i gael cefnogaeth gynnwys paramedrau ychwanegol y tu hwnt i'r trwybwn hanesyddol. Gofynnir hefyd pa feini prawf a mesurau y gallai'r rhain fod, a sut y gellid eu cynnwys yn y system ddiwygiedig.

Taliadau sy'n gymwys ar gyfer gostyngiad: Amser heb ei weithio

- 10.10 Fel y nodwyd ym mharagraff 5.7 uchod, nid oes gostyngiadau ar gael ar gyfer taliadau sy'n ymwneud â chamau gorfodi ffurfiol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon nac ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag allforio yng Nghymru a Lloegr, a bydd hyn yn parhau. (Yng Ngogledd Iwerddon, ni chodir taliadau ar weithgareddau sy'n gysylltiedig ag allforio).
- 10.11 Ar hyn o bryd, mae gostyngiad ar gael ar gyfer taliadau am amser heb ei weithio o fewn y Datganiad o Adnoddau lle na ellir adleoli staff (cod IUWT). Mae'r ASB yn manteisio ar y cyfle hwn i geisio safbwyntiau cychwynnol ar gael gwared ar ostyngiadau o'r taliadau hyn. Bwriad newid o'r fath fyddai annog defnydd mwy effeithiol o adnoddau'r ASB yn unol â'r Datganiadau Adnoddau, ac annog yr ASB a gweithredwyr busnesau bwyd i adolygu'r Datganiadau hynny lle mae lefelau amser heb eu gweithio yn peri pryder. Y nod cyffredinol fyddai gwneud y mwyaf o botensial adnoddau'r ASB fel y gellir eu defnyddio mewn mannau eraill i gefnogi'r gwaith, gan wella effeithlonrwydd yn y pen draw.

Cwestiwn Ymgynghori – Elfennau posib yn y dyfodol

Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi neu herio diwygiadau posib i'r system yn y dyfodol fel y nodir ym mharagraffau 10.7 – 10.9?

Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi neu herio'r honiad y byddai cael gwared ar ostyngiadau am amser heb ei weithio pan na ellir adleoli staff wrth ddiwygio'r gostyngiadau yn y dyfodol yn annog adolygu Datganiadau Adnoddau, gan wella effeithlonrwydd yn y pen draw?

Rhowch resymau dros eich atebion gan gynnwys dulliau amgen ac awgrymiadau ar gyfer elfennau ychwanegol yn y dyfodol at y system ostyngiadau y gellid eu hystyried i wella cefnogaeth i'r diwydiant, effeithlonrwydd a/neu werth i drethdalwyr y DU.

11. Effeithiau

- 11.1 Yn unol ag arferion gorau, bydd yr ASB yn cynhyrchu asesiad effaith o'r drefn ddiwygiedig i roi gostyngiadau. Bydd hwn yn cael ei ddarparu i weinidogion ynghyd â'n cyngor terfynol i'w llywio wrth iddynt wneud eu penderfyniad terfynol ar y cynllun. Bydd yr asesiad effaith yn cael ei gyhoeddi pan fydd wedi'i gwblhau.

- 11.2 Mae Atodiad A yn nodi'r prif opsiynau a pharamedrau a fydd yn cael eu mynegi'n ariannol yn yr asesiad effaith. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio i amcangyfrif effaith gyffredinol y cynigion. Bydd yr asesiad yn cael ei lywio gan wybodaeth sydd wedi dod i law hyd yma o drafodaethau â rhanddeiliaid, data a gedwir gan yr ASB, ymchwil a gynhaliwyd gan Riber Consultants, yn ogystal â data a thystiolaeth a ddarparwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.
- 11.3 Yng ngweddill yr adran hon, rydym wedi cyflwyno tystiolaeth a modelau rhagarweiniol i gynorthwyo busnesau unigol i ddeall yr effaith arnynt, ac i lywio eu hymatebion i'r ymgynghoriad hwn.
- 11.4 Mae'r cwestiynau ar ddiwedd yr adran hon yn ymwneud â'r effeithiau unigol a'r effeithiau cyffredinol, a dylid eu hystyried ar ôl darllen yr adran hon ac Atodiad A.

Effeithiau ar fusnesau unigol

- 11.5 Bydd yr effaith ariannol ar sefydliadau unigol yn dibynnu ar eu trwybwn hanesyddol gwirioneddol sy'n cael eu hystyried yn ogystal â lefel wirioneddol y taliadau yn y flwyddyn sy'n cael ei hasesu. Gan nad yw'r rhain ar gael eto ar gyfer blwyddyn gyntaf y system ddiwygiedig, dylid ystyried yr amcangyfrifon isod fel rhai enghreifftiol yn unig, ac ni ddylid eu defnyddio at ddibenion cynllunio busnes.
- 11.6 Gan ddefnyddio'r paramedrau a nodir isod, yn ogystal â'u data eu hunain, bydd busnesau'n gallu amcangyfrif canran debygol y gostyngiad y gallent ei derbyn o dan y system ddiwygiedig, ac felly gallent hefyd amcangyfrif yr effaith arnynt. Mae'r ffigurau a ddarperir yn tybio bod y paramedrau a argymhellir yn yr ymgynghoriad hwn yn cael eu mabwysiadu fel a ganlyn:
- Y gostyngiad mwyaf ar neu islaw Trothwy 1 = 90%
 - Gostyngiad uwchlaw Trothwy 2 = 0%
 - Mae Trothwy 1 wedi'i osod ar 1,000 o LSUs/150,000 o anifeiliaid
 - Mae Trothwy 2 wedi'i osod ar lefel sydd bum gwaith yn uwch na Trothwy 1
- 11.7 Ar gyfer sefydliadau â thrwybwn hanesyddol ar neu islaw Trothwy 1, byddai hyn yn rhoi gostyngiad o 90%. Gan ddefnyddio data trwybwn ac oriau o 2024/25, rydym yn amcangyfrif y bydd nifer y lladd-dai yng Nghymru a Lloegr sy'n gymwys i gael gostyngiad o 90% ar eu holl oriau cymwys yn cynyddu hyd at 50% o gymharu â'r system ostyngiadau bresennol. Gan ddefnyddio'r amcangyfrif hwn, byddai bron i draean o ladd-dai yng Nghymru a Lloegr yn cael y gostyngiad mwyaf.
- 11.8 Ar gyfer sefydliadau sydd â thrwybwn rhwng Trothwy 1 a Trothwy 2, byddai canran y gostyngiad yn cael ei phennu drwy ddefnyddio'r hafaliad canlynol:

$$\% \text{ y gostyngiad} = Y \text{ gostyngiad mwyaf} - \frac{Y \text{ gostyngiad mwyaf} \times (T_H - T_1)}{T_2 - T_1}$$

Ile mae T1 a T2 yn golygu Trothwy 1 a Throthwy 2 yn y drefn honno, a T_H yn golygu trwybwn hanesyddol y busnes wedi'i fynegi naill ai fel LSUs neu nifer yr anifeiliaid, yn dibynnu ar y rhywogaeth.

11.9 Ar gyfer y paramedrau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn, mae hyn yn cyfateb i'r canlynol:

- % y gostyngiad ar gyfer cig coch/anifeiliaid hela mawr = $112.5 - 0.0225 \cdot T_H$.
- % y gostyngiad ar gyfer dofednod/lagomorffiaid/anifeiliaid hela bach = $112.5 - 0.00015 \cdot T_H$.

11.10 Gan ddefnyddio data trwybwn ac oriau o 2024/25, rydym yn amcangyfrif y byddai tua 21% o ladd-dai yng Nghymru a Lloegr yn gymwys i gael cefnogaeth ostyngol, ac y byddai tua 51% o ladd-dai yn cael rhywfaint o gefnogaeth ariannol o dan y cynllun arfaethedig.

11.11 Ar gyfer sefydliadau â thrwybwn hanesyddol sy'n fwy na Trothwy 2, cyfradd y gostyngiad fyddai 2%. Rydym yn amcangyfrif na fydd tua 49% o ladd-dai yn cael gostyngiad.

11.12 Mae'r data hwn yn cael ei grynhoi ar gyfer detholiad enghreifftiol o wahanol drwybynnau yn y tabl isod

Tabl 3: Lefelau enghreifftiol o'r gostyngiad o dan y model sylfaenol arfaethedig

Trothwy	LSUs ar gyfer cig coch/cig anifeiliaid hela mawr	Trwybwn dofednod lagomorffiaid / anifeiliaid hela bach	Gostyngiad enghreifftiol o dan y model sylfaenol
Trothwy 1	Hyd at a chan gynnwys: 1,000 LSUs	Hyd at a chan gynnwys: 150,000 o anifeiliaid	90.0%
2 x Trothwy 1	2,000 LSUs	300,000 o anifeiliaid	67.5%
3 x Trothwy 1	3,000 LSUs	450,000 o anifeiliaid	45.0%
4 x x Trothwy 1	4,000 LSUs	600,000 o anifeiliaid	22.5%
Trothwy 2 (5 x Trothwy 1)	5,000 LSUs a mwy	750,000 o anifeiliaid a mwy	0.0%

Cwestiwn Ymgynghori – Effeithiau

Mae Adran 11 ac Atodiad 1 yn darparu'r prif opsiynau, paramedrau a modelau, yn seiliedig ar dystiolaeth ragarweiniol, i helpu busnesau i ddeall effaith y cynigion hyn arnynt. Er mwyn mesur y costau a'r buddion ar gyfer yr asesiad effaith, rydym yn chwilio am dystiolaeth fesuradwy.

Mae Tabl 3 yn dangos gostyngiadau enghreifftiol ar gyfer gwahanol lefelau o drwybwn, yn seiliedig ar y paramedrau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn. A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth ynglŷn â sut y byddai defnyddio'r paramedrau hyn yn effeithio ar fusnesau unigol? Os yw'n bosib, cofiwch gynnwys:

- gwybodaeth rifol (er enghraifft, effaith ar elw neu drosiant)
- gwybodaeth naratifol am ganlyniadau neu oblygiadau disgwylledig

Sut rydych chi'n meddwl y byddai newid gwerth Trothwy 2, fel defnyddio lluosrif gwahanol o Drothwy 1, yn dylanwadu ar yr effeithiau a nodwyd gennych uchod?

Costau ymgyfarwyddo:

Ym mharagraff 15.9, rydym yn nodi'r staff y bydd disgwyl iddynt, yn rhinwedd eu swyddi, ymgyfarwyddo â'r canllawiau newydd. Ydych chi'n cytuno â'r swyddi hyn a nodwyd gennym?

Os nad ydych chi'n cytuno, nodwch pa swyddi y dylid eu hychwanegu, eu tynnu, neu eu diwygio a pham.

Effaith ar ddefnyddwyr:

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hasesiad y bydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith ddibwys ar ddefnyddwyr?

Eglurwch eich ateb a chofiwch gynnwys tystiolaeth, os yw'n briodol.

Buddion ar y baich gweinyddol:

Pa newidiadau i amser gweinyddol (arbedion neu enillion), os o gwbl, ydych chi'n eu rhagweld o ganlyniad i'r system ostyngiadau ddiwygiedig? Darparwch dystiolaeth fesuradwy fel amcangyfrifon o funudau neu oriau a fydd yn cael eu harbed neu a fydd eu hangen bob mis, lle bo modd.

Effeithiau economaidd ehangach:

A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar effeithiau economaidd ehangach y newidiadau arfaethedig? Rhowch resymau dros eich atebion gan gynnwys tystiolaeth, os yw'n briodol.

Yn eich tyb chi, pa effeithiau eraill a allai godi yn sgil gweithredu'r cynllun cefnogaeth diwygiedig arfaethedig, y tu hwnt i'r rhai a nodwyd gennym?

Rhowch resymau dros eich ateb a darparwch dystiolaeth fesuradwy, lle bo modd.

12. Cyfathrebu â gweithredwyr busnesau bwyd ar faterion sy'n ymwneud â chodi tâl am reolaethau ar gig

- 12.1 Mae'r ASB hefyd yn edrych ar ffyrdd o wella effeithlonrwydd yn y system codi tâl bresennol ac, os yw'n gyfreithiol bosib, hoffai symud tuag at gyfathrebu'n electronig â gweithredwyr sefydliadau cymeradwy ar faterion sy'n ymwneud â chodi tâl am gig (er enghraifft, rhoi gwybod am gyfraddau blynyddol a rhybuddio am ymgynghoriadau perthnasol fel yr un dan sylw). Byddai hyn yn galluogi'r ASB i fod yn fwy effeithlon wrth rannu gwybodaeth am godi tâl am gig a sicrhau bod pob gweithredwr yn cael yr un wybodaeth ar yr un pryd.
- 12.2 Mae'r ASB yn cynnig ysgrifennu at bob gweithredwr sefydliadau cig cymeradwy nad oes gennym eu manylion cyswllt electronig ym mis Medi 2026, gyda'r nod o gasglu'r manylion hyn erbyn diwedd y flwyddyn ac, os yw'n gyfreithiol bosib, symud i gyfathrebu'n electronig o fis Ionawr 2027.

Cwestiwn Ymgynghori – Cyfathrebiadau ar godi tâl am reolaethau ar gig

Er mwyn helpu'r ASB i gyfathrebu â gweithredwyr busnesau bwyd yn fwy effeithlon ar faterion sy'n ymwneud â chodi tâl am reolaethau ar gig, a fyddech chi'n hapus i ni anfon pob cyfathrebiad yn electronig yn y dyfodol, lle mae hyn yn bosib yn gyfreithiol?

13. Ymatebion

- 13.1 Mae'n rhaid i ymatebion ddod i law erbyn 12 Mehefin 2026.
- 13.2 Ymatebwch gan ddefnyddio'r [ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein](#):
- 13.3 Fel arall, gallwch ymateb drwy anfon e-bost i meatchargingpolicy@food.gov.uk gan nodi yn eich ymateb a ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad. Nodwch hefyd eich lleoliad, fel Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon neu wlad arall, yn ogystal â maint eich sefydliad:
- 9 neu lai o weithwyr (micro)
 - 10 – 49 o weithwyr (bach)
 - 50 – 249 o weithwyr (canolig)

- 250 neu fwy o weithwyr (mawr)

13.4 I gael gwybodaeth am sut mae'r ASB yn trin eich data personol, cyfeiriwch at yr [hysbysiad preifatrwydd ar gyfer ymgynghoriadau](#).

Cwestiwn Ymgynghori – Cyffredinol

Os hoffech ychwanegu unrhyw dystiolaeth bellach at eich ymatebion neu unrhyw awgrymiadau eraill sy'n berthnasol i'r cynigion a drafodwyd, gwnewch hynny yma.

14. Mwy o wybodaeth

- 14.1 Os bydd angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a bydd eich cais yn cael ei ystyried.
- 14.2 Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag [egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU](#).
- 14.3 Ar ran yr ASB, diolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

**Tîm Codi Tâl ar Safleoedd Cig
Cyfarwyddiaeth Polisi Bwyd
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd**

15. Atodiad A: Amlinelliad o'r asesiad effaith drafft

- 15.1 Yn unol ag arferion gorau, bydd yr ASB yn cynhyrchu asesiad effaith o'r drefn ddiwygiedig i roi gostyngiadau. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio gweinidogion wrth iddynt wneud eu penderfyniad terfynol ar y cynllun a chaiff ei gyhoeddi pan fydd wedi'i gwblhau.
- 15.2 Yn seiliedig ar wybodaeth sydd wedi dod i law hyd yma o drafodaethau â rhanddeiliaid, data a gedwir gan yr ASB ac ymchwil a gynhaliwyd gan Ymgynghorwyr Riber, mae'r ASB wedi mynegi rhai effeithiau'n ariannol. Mae'r costau a asesir yn rhai dros dro, ac mae'r ASB yn ceisio tystiolaeth ychwanegol gan y diwydiant i lywio'r asesiad effaith terfynol o'r holl gostau a buddion.
- 15.3 Ar gyfer yr asesiad effaith, rydym wedi ystyried tri opsiwn:
- **Opsiwn 1 (llinell sylfaen)** – parhau â'r model sy'n seiliedig ar fandiau [gyda llwybr parhaus tuag at adennill costau llawn]
 - **Opsiwn 2a** – Model cefnogaeth ostyngol gydag 1 flwyddyn o ddata mewnbwn
 - **Opsiwn 2b** – Model cefnogaeth ostyngol gyda 3 blynedd o ddata mewnbwn
- 15.4 Efallai y bydd opsiynau ychwanegol pellach i'w harchwilio o fewn yr Asesiad Effaith ynghylch lleoliad Trothwy 2. Mae Adran 8 o'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r rhesymeg y tu ôl i leoliad y trothwy. Mae amrywiad posib yn cynnwys gosod Trothwy 2 unrhyw le o ddwy i dair gwaith Trothwy 1 (y lleoliad lle mae twf wedi'i ddiogelu) i bum gwaith Trothwy 1, sef y lleoliad lle y credir bod y baich rheoleiddiol yn gymesur. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi ystyried yr opsiwn y dylid gosod Trothwy 2 bum gwaith swm Trothwy 1.

Opsiwn 1 – Llinell sylfaen – Parhau â'r model sy'n seiliedig ar fandiau

- 15.5 Bydd costau a buddion opsiynau 2a a 2b yn cael eu cymharu â'r llinell sylfaen yn yr Asesiad Effaith terfynol.
- 15.6 Bydd yr opsiwn llinell sylfaen yn cynnwys parhau â'r model cyfredol o ran rhoi gostyngiadau sy'n seiliedig ar fandiau.

Opsiwn 2a – Model cefnogaeth ostyngol gydag 1 flwyddyn o ddata mewnbwn

Costau wedi'u mynegi'n ariannol:

Costau i fusnesau

Cost barhaus ar gyfer gostyngiadau i ladd-dai

- 15.7 Amcangyfrifir y bydd lladd-dai yn wynebu costau ychwanegol parhaus oherwydd dyraniad is o ostyngiad, gan na fydd lladd-dai mwy bellach yn gymwys i gael gostyngiad, nac i gael gostyngiad is, ar yr oriau a dreulir ar reolaethau swyddogol.

Bydd hyn yn arwain at ostyngiad llai, ac felly bydd yn rhoi mwy o bwysau cost ar ladd-dai o dan y system ostyngiadau ddiwygiedig. Rhoddir gwerth ariannol ar y gost hon ar ôl yr ymgynghoriad fel rhan o asesiad effaith.

Costau ymgysfarwyddo untro i sefydliadau

- 15.8 Amcangyfrifir y bydd lladd-dai yn wynebu cost ymgysfarwyddo untro oherwydd yr angen i ymgysfarwyddo â'r system ddiwygiedig o ostyngiadau.
- 15.9 Yn unol â'n methodoleg safonol ar asesu amser ymgysfarwyddo â chanllawiau newydd, byddwn yn amcangyfrif yr amser ymgysfarwyddo untro drwy rannu cyfanswm nifer geiriau'r canllawiau diwedddaredig hyn ynghylch rhoi gostyngiadau wrth godi tâl ar gig, gan gynnwys atodiadau, â nifer cyfartalog y geiriau y gall person eu darllen y funud ar gyfer testun rhyddiaith (275 gair y funud).¹
- 15.10 Rydym yn tybio y bydd swydd y rhai sy'n ymgysfarwyddo â'r canllawiau yn debygol o amrywio, yn dibynnu ar faint y busnes. Ar gyfer lladd-dai bach a chanolig, lle mae un person yn aml yn ysgwyddo sawl rôl, rydym yn disgwyl i'r unigolyn weithredu fel "Rheolwr a Pherchennog mewn Gwasanaethau sy'n Gysylltiedig ag Amaethyddiaeth"² Ar gyfer lladd-dai mwy, rydym yn tybio mai "Gweinyddiaeth Gyllid"³ fydd yr alwedigaeth berthnasol, a bydd dau aelod o staff yn gyfrifol, fesul lladd-dy, am ymgysfarwyddo â'r canllawiau.
- 15.11 Er mwyn mesur a mynegi'n ariannol gyfanswm y gost ymgysfarwyddo untro i'r diwydiant, byddwn yn lluosio'r gost ymgysfarwyddo fesul busnes â nifer y lladd-dai. Bydd hyn yn arwain at gost ymgysfarwyddo untro fras i fusnesau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rhoddir gwerth ariannol ar y gost hon ar ôl yr ymgynghoriad fel rhan o asesiad effaith.

Costau i Awdurdodau Cymwys

- 15.12 Y costau a nodir isod yw'r costau a godir ar yr ASB o ganlyniad i ddiwygio'r drefn ostyngiadau, ac ni fyddant yn cael eu hychwanegu at y taliadau ar gyfer arolygu rheolaethau swyddogol.

Cost untro i'r ASB yng Nghymru a Lloegr ar gyfer datblygu system TG newydd

- 15.13 Mae'r ASB yng Nghymru a Lloegr wedi amcangyfrif cost untro gychwynnol rhwng £100,000 a £300,000 i ddatblygu'r llwyfan TG a fydd yn gweinyddu'r system ostyngiadau ddiwygiedig. Rhagwelir y bydd staff a chontractwyr yr ASB yn datblygu un system TG ar gyfer yr ASB yng Nghymru a Lloegr.

¹ [Targed Effaith Busnes. Gwerthusiad o ganllawiau: asesiad ar gyfer canllawiau a gyhoeddir gan reoleiddwyr. Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol \(2017\).](#)

² [Cod SOC 1211 fel y'i diffinnir yn Nhabl 14 ASHE \(2025\).](#)

³ [Cod SOC 4129 fel y'i diffinnir yn Nhabl 14 ASHE \(2025\).](#)

Cost untro i'r ASB yng Nghymru a Lloegr ar gyfer hyfforddiant ar y systemau TG

- 15.14 Amcangyfrifir y bydd yr ASB yn wynebu costau untro er mwyn darparu hyfforddiant ar y system TG, gan y bydd angen hyfforddi staff yr ASB i ddefnyddio'r system TG newydd sydd wedi'i datblygu ar gyfer y system ostyngiadau ddiwygiedig. Er mwyn meintoli a mynegi'n ariannol gostau hyfforddi TG untro i'r ASB, yn unol â methodoleg Modelu Cost Safonol (SCM), rydym yn cyfrifo'r gost lafur fesul gweithiwr drwy luosi'r gyfradd gyflog fesul awr, sy'n cynnwys costau nad ydynt yn gyflogau ac sy'n deillio o ddata cyflogau'r ASB, â'r amser sydd ei angen. Yna, caiff hyn ei luosi â nifer y staff sydd eu hangen o bob grŵp a'i gyfuno ar draws pob grŵp o weithwyr i roi'r gost lafur gyffredinol sy'n gysylltiedig â hyfforddi staff yr ASB yn y system ostyngiadau ddiwygiedig.
- 15.15 Gan fod y systemau TG yn dal yn gynnar yn eu datblygiad, bydd cyfanswm cost un-tro i'r ASB ar gyfer hyfforddiant TG yn cael ei bennu pan fydd manylebau'r systemau'n gwbl hysbys. Bydd yn cynrychioli'r gost i'r ASB ar gyfer Cymru a Lloegr. Felly bydd y gost hon yn cael ei mynegi'n ariannol ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben fel rhan o Asesiad Effaith.

Datblygu system TG newydd i DAERA (Gogledd Iwerddon)

- 15.16 Mae system ostyngiadau Gogledd Iwerddon yn cael ei gweinyddu gan DAERA. Mae'r ASB yn amcangyfrif na fydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo wrth ddatblygu a chreu llwyfan TG newydd i weinyddu'r system ostyngiadau ddiwygiedig yng Ngogledd Iwerddon. Mae hyn oherwydd bod DAERA yn codi costau TG yn barhaus fel rhan o gostau cyffredinol, ac mae'r gwaith hwn yn cael ei ystyried yn fusnes fel arfer.

Cost untro i'r ASB yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer hyfforddi staff i ddefnyddio system TG newydd DAERA

- 15.17 Ar gyfer ladd-dai Gogledd Iwerddon, bydd system TG newydd DAERA yn cael ei defnyddio i benderfynu a ydych yn gymwys i gael gostyngiad. Felly, bydd angen i staff ychwanegol gyflwyno a chael hyfforddiant ar systemau TG DAERA. O ystyried ansicrwydd ynghylch y system TG, bydd cyfanswm y gost untro i'r ASB o hyfforddi staff ar system TG DAERA yn hysbys unwaith y bydd manyleb y systemau TG wedi'i chadarnhau. Bydd y gost hon, felly, yn cael ei mynegi'n ariannol ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben fel rhan o Asesiad Effaith.

Cost untro i'r ASB ar gyfer rhoi gwybod i ladd-dai am y system ostyngiadau ddiwygiedig

- 15.18 Amcangyfrifir y bydd yr ASB yn ysgwyddo costau untro ar gyfer rhoi gwybod i ladd-dai am y system ostyngiadau ddiwygiedig, gan y bydd angen i staff yr ASB ddrafftio, cymeradwyo ac anfon canllawiau, yn ogystal â llythyr eglurhaol, at ladd-dai.
- 15.19 Er mwyn meintoli a mynegi'n ariannol y costau staff untro i'r ASB o ddrafftio a chymeradwyo canllawiau ar y system ostyngiadau ddiwygiedig, yn unol â methodoleg yr SCM, rydym yn cyfrifo'r gost lafur fesul gweithiwr drwy luosi'r gyfradd gyflog fesul awr, sy'n cynnwys costau nad ydynt yn gyflogau ac sy'n deillio o ddata cyflogau'r ASB, â'r amser sydd ei angen. Yna, caiff hyn ei luosi â nifer y

staff sydd eu hangen o bob grŵp a'i gyfuno ar draws pob grŵp o weithwyr i roi'r gost lafur gyffredinol sy'n gysylltiedig â drafftio a chymeradwyo canllawiau a llythyr eglurhaol ar y system ostyngiadau ddiwygiedig. Bydd yr ASB hefyd yn ysgwyddo costau llafur a phostio sy'n gysylltiedig ag anfon y canllawiau ar y drefn ostyngiadau i ladd-dai. Er mwyn mesur a mynegi'n ariannol gost llafur untro i'r ASB o anfon canllawiau a'r llythyr eglurhaol, bydd methodoleg y SCM yn cael ei defnyddio.

- 15.20 Mae'r cynllun ar gyfer ymgysylltu â'r sector yn dal i gael ei ddatblygu, ac felly bydd cyfanswm y gost untro a godir ar yr ASB yn cael ei fynegi'n ariannol ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben fel rhan o Asesiad Effaith.

Costau i ddefnyddwyr

Effaith ar ddefnyddwyr

- 15.21 Mae'r ASB yn tybio y bydd yr effaith uniongyrchol ar ddefnyddwyr yn ddibwys. Mae canfyddiadau cynnar o ymchwil allanol gan Riber Consultants yn awgrymu mai'r prif effaith ar ddefnyddwyr o newidiadau i strwythurau codi tâl ar ladd-dai yw llai o argaeledd cynnyrch, nid prisiau uwch.

Buddion wedi'u mynegi'n ariannol:

Buddion i fusnesau

Budd parhaus o ran baich gweinyddol llai i ladd-dai

- 15.22 Amcangyfrifir y bydd cael y gostyngiad yn golygu llai o faich gweinyddol, gan fod y model cefnogaeth ostyngol arfaethedig wedi'i gynllunio i fod yn symlach ac yn haws i'w ddehongli na'r system sy'n seiliedig ar fandiau. Nid yw'r gost hon wedi'i mynegi'n ariannol eto. Gofynnir am wybodaeth gan y diwydiant drwy'r arolwg ymgynghori, gyda'r bwriad o fesur y gost.

Buddion i Awdurdodau Cymwys

Budd parhaus o ran baich gweinyddol llai i'r ASB ar gyfer Cymru a Lloegr

- 15.23 Amcangyfrifir y bydd yr ASB yn gweld buddion parhaus drwy lai o faich gweinyddol wrth gyfrifo gostyngiadau lladd-dai yng Nghymru a Lloegr, gan fod y model cefnogaeth ostyngol arfaethedig wedi'i gynllunio i fod yn symlach ac yn haws i'w ddehongli na'r system sy'n seiliedig ar fandiau.
- 15.24 Er mwyn mesur a mynegi'n ariannol y gostyngiadau parhaus yn y baich gweinyddol i'r ASB, bydd methodoleg yr SCM yn cael ei defnyddio.
- 15.25 Gan fod y systemau TG yn dal yn gynnar yn eu datblygiad, bydd cyfanswm y budd parhaus i'r ASB o leihau'r baich gweinyddol wrth gyfrifo gostyngiadau lladd-dai yn cael ei gyflawni pan fydd manyleb y systemau TG yn gwbl hysbys. Bydd yn cynrychioli'r budd i'r ASB ar gyfer Cymru a Lloegr. Bydd y gost hon, felly, yn cael ei mynegi'n ariannol ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben fel rhan o Asesiad Effaith.

Budd parhaus o ran baich gweinyddol llai i'r ASB ar gyfer Gogledd Iwerddon

- 15.26 Amcangyfrifir y bydd yr ASB yn gweld buddion parhaus drwy lai o faich gweinyddol wrth gyfrifo gostyngiadau lladd-dai yng Ngogledd Iwerddon, gan fod y model cefnogaeth ostyngol arfaethedig wedi'i gynllunio i fod yn symlach ac yn haws i'w ddehongli na'r system sy'n seiliedig ar fandiau. Bydd hyn yn cael ei fesur a'i fynegi'n ariannol yn unol â methodoleg yr SCM a fabwysiadwyd ar gyfer Cymru a Lloegr.
- 15.27 Gan fod y systemau TG yn dal yn gynnar yn eu datblygiad, bydd cyfanswm y budd parhaus i'r ASB o leihau'r baich gweinyddol wrth gyfrifo gostyngiadau lladd-dai yn cael ei gyflawni pan fydd manyleb y systemau TG yn gwbl hysbys. Bydd yn cynrychioli'r budd i'r ASB ar gyfer Gogledd Iwerddon. Bydd y gost hon, felly, yn cael ei mynegi'n ariannol ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben fel rhan o Asesiad Effaith.

Buddion i drethdalwyr

Budd parhaus i drethdalwyr mewn perthynas â swm gostyngiad llai

- 15.28 Amcangyfrifir y bydd y trethdalwyr yn cael buddion parhaus oherwydd dyraniad is o ostyngiad, gan na fydd lladd-dai mwy bellach yn gymwys i gael gostyngiad, neu byddant yn cael llai o ostyngiad, ar yr oriau a dreulir ar reolaethau swyddogol. Bydd hyn yn arwain at arbedion parhaus i drethdalwyr o dan y system ostyngiadau ddiwygiedig.
- 15.29 Ar ôl cadarnhau manyleb y modelau gostyngiadau, gall dadansoddwyr yr ASB a phartneriaid cyllid amcangyfrif y gost ariannol a'r arbedion i'r sector cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r system ostyngiadau ddiwygiedig. Bydd y gost hon, felly, yn cael ei mynegi'n ariannol ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben fel rhan o Asesiad Effaith.

Effeithiau economaidd ehangach

- 15.30 Mae'r ASB yn rhagweld rhai effeithiau economaidd ehangach o ganlyniad i'r newidiadau i'r gyfundrefn ostyngiadau. Mae enghreifftiau'n cynnwys costau cludo posib i berchnogion da byw, effeithiau ar les anifeiliaid a newidiadau strwythurol i ladd-dai. Bydd yr effeithiau hyn yn cael eu hesbonio'n fanwl yn yr Asesiad Effaith terfynol.

Opsiwn 2b – Model cefnogaeth ostyngol gyda 3 blynedd o ddata mewnbwn

- 15.31 Mae Opsiwn 2b bron yr un fath ag Opsiwn 2a o ran sut mae'r gostyngiad yn gweithio a sut mae'n cael ei gyfrifo. Mae'r prif wahaniaeth yn ymwneud â'r data mewnbwn ar gyfer trwybwn y lladd-dai. O dan Opsiwn 2a, defnyddir un flwyddyn o ddata, ond o dan Opsiwn 2b, defnyddir 3 blynedd o ddata.
- 15.32 Gan mai dim ond gwahaniaeth bach sydd yn y dull cyfrifo gostyngiad rhwng y ddau opsiwn, rhagwelir y bydd yr effaith gyfanredol ar y diwydiant a'r ASB yr un

peth. Hynny yw, mae'r costau a'r buddion yn union yr un fath ar gyfer Opsiwn 2a ac Opsiwn 2b.

16. Atodiad B: Partïon sydd â buddiant

Partïon yr effeithir arnynt yn uniongyrchol

Gweithredwyr sefydliadau cig cymeradwy yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n destun taliadau am reolaethau swyddogol a gynhelir gan yr ASB

Aelodau'r ASB/Gweithgor Partneriaeth y Diwydiant (PWG)

Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth
Cymdeithas Cyflenwyr Cig Annibynnol
Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain
Cyngor Dofednod Prydain
Undeb Amaethwyr Cymru
Hybu Cig Cymru (HCC)
Y Gymdeithas Masnach Cig Rhyngwladol
Cigyddion Crefft Cenedlaethol
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
Cymdeithas Genedlaethol y Delwyr Helwriaeth
Cymdeithas Foch Genedlaethol
Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
Ffederasiwn Masnachu Darpariaethau

Partïon eraill sydd â buddiant

Grŵp Sector Lladd-dai
Cymdeithas Arolygwyr Cig
Cymdeithas Moch Prydain
Consortiwm Manwerthu Prydain
Cyngor Moeseg Bwyd
Found Foundation
Cynghrair y Gweithwyr Tir
Lladd-dai Lleol R Key
Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol
Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon
Pasture for Life
Ymddiriedolaeth Goroesiad Bridiau Prin
Cymdeithas y Pridd
Sustain
Ymddiriedolaeth Bwyd Cynaliadwy
UNISON
Which?